**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

**COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00AM, DYDD MAWRTH, 14 MAI, 2013**

**10.00AM, TUESDAY, 14 MAY, 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR DAFYDD ORWIG**

**SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Ioan Hughes (01286 679780)**

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd 07.05.2013

**Aelodaeth/Membership (18)**

**<u>Plaid Cymru (9)</u>**
Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Craig ap Iago | Annwen Hughes | Gethin Glyn Williams |
| Dilwyn Morgan | Linda Morgan | Tudor Owen |
| Caerwyn Roberts | Mandy Williams-Davies | Eurig Wyn |

**<u>Annibynnol/Independent (4)</u>**
Y Cynghorwyr / Councillors

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance | Angela Russell | Mike Stevens |

**<u>Llais Gwynedd (3)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Louise Hughes | Gruffydd Williams | Robert J. Wright |

**<u>Llafur/Labour (1)</u>**

Y Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

**<u>Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats (1)</u>**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen.

## RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2013 /14

**2. IS-GADEIRYDD**

I gofio Is-gadeirydd am y flwyddyn 2013/14

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2013, fel rhai cywir, (copi yma – papur **melyn**)

<u>Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod</u>

**7. CANOL TREFI**
**Aelodau Cabinet – Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Ystyried sylwadau'r Aelod Cabinet mewn perthynas â 'Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi'.

(<u>Copi yma)</u>

<u>10.05am – 10.50am (45 munud)</u>

**8. HOSTEL NODDFA, DEINIOLEN**
**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd John Wyn Williams**

Ystyried ymateb yr Aelod Cabinet i faterion ym ymwneud â gwerth y gwasanaeth a geir yn Hostel Noddfa, Deiniolen, (copi yma – papur **lelog**)

<u>10.50am – 11.50 am (awr)</u>

**9. CLUDIANT**

**Aelod Cabinet - Y Cynghorydd W. Gareth Roberts**

Ystyried sylwadau'r Aelod Cabinet, mewn perthynas â darpariaeth cludiant ôl 16 oed a gefnogir gan y Cyngor, (copi yma – papur **llwyd**)

<u>11.50 am – 12:50pm (awr)</u>

**10. RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL**

Ystyried fersiwn ddiweddaraf y Rhaglen Waith Diweddaraf, (copi yma – papur **pinc**)

12.50pm

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 26-03-2013**

**YN BRESENNOL (aelodau'r Pwyllgor)** - Y Cynghorydd Eric M. Jones, (Cadeirydd
Y Cynghorydd Angela Russell,(Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Annwen Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Morgan, Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts, Mandy Williams-Davies, Gruffydd Williams, Gethin Glyn Williams ac Eurig Wyn.

**SWYDDOGION:** Gareth James, (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**ERAILL A WAHODDWYD I'R CYFARFOD: (**_Ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen – Datblygiad Gwasanaethau Cludiant Yng Ngwynedd),_ Bethan Russell Williams, (Prif Swyddog Mantell Gwynedd), Barbara Snowball, (Defnyddwyr Bysiau Mawddach), Rona Lewis, (Cyfarwyddwr Safle Dolgellau, Coleg Meirion Dwyfor) a Linda Wyn, (Uwch Gyfarwyddwr Gwasanaethau Academic, Coleg Meirion Dwyfor).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr David Gwynfor Edwards, Mike Stevens a Robert J. Wright.

**CROESO :** Estynnwyd croeso i'r Cynghorydd Nigel Pickavance, a oedd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor am y tro cyntaf peth amser. Ni fu'n bosib iddo fod yn bresennol ers rhai misoedd oherwydd salwch ei ferch, a dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r aelod a'i deulu.

**YMCHWILIAD CRAFFU:** Yn ddiweddar cwblhawyd ymchwiliad craffu, oedd yn ymdrin â 'Darparu Tai i Bobl Leol'. Cadarnhaodd, Cadeirydd Grŵp yr Ymchwiliad Craffu, y Cynghorydd Stephen Churchman, fod yr holl argymhellion a wnaed wedi eu cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Cabinet Anffurfiol.
Ychwanegodd mai dyma'r tro cyntaf i aelodau'r Cabinet roi ystyriaeth i ymchwiliad craffu, a bod eu hymateb yn gadarnhaol iawn. Diolchodd y Cynghorydd Churchman i bawb, yn aelodau a swyddogion, a fu'n rhan o'r ymchwiliad, ac esboniodd y bydd yr Aelod Cabinet yn awr yn cydweithio gyda'r swyddogion perthnasol i fynd ag adroddiad i'r Cabinet Ffurfiol yn ystod yr wythnosau neu'r misoedd nesaf.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2013, fel rhai cywir.

**3. DATBLYGIAD GWASANAETHAU CLUDIANT YNG NGWYNEDD**

3a) _Cyfweliad gyda Bethan Russell Williams, Prif Swyddog Mantell Gwynedd_

a) Croesawyd Prif Swyddog Mantell Gwynedd gan y Cadeirydd a diolchodd iddi am fynychu'r cyfarfod.

b)Cyfeiriodd Prif Swyddog Mantell Gwynedd at newidiadau arfaethedig mewn perthynas ag ad-drefnu Gwasanaeth Iechyd ar draws gogledd Cymru, a nododd bod y trydydd sector yn bryderus ynglŷn â sut y byddai trigolion mannau megis Llŷn a rhannau o Feirionnydd yn teithio cryn bellter pe byddai gwasanaethau arbenigol yn cael eu canoli.
Yn sgil hyn gwnaed peth gwaith gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a chyflwynodd Mrs Williams wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yng ngoleuni'r ad-drefnu posib.

c) Ychwanegodd bod mudiadau gwirfoddol yn wynebu problemau o safbwynt ariannu, cynnal y gwasanaeth a blaengynllunio. Esboniodd ymhellach nad yw Mantell Gwynedd yn darparu gwasanaeth, ond eu bod yn gweithio i gefnogi a chynorthwyo'r mudiadau gwirfoddol.

ch) Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd bod tuedd i bwysau cynyddol gael ei roi ar holl wasanaethau'r trydydd sector, er nad ydy'r gefnogaeth ariannol ar gael. Ychwanegodd y siaradwr y gellid ystyried sicrhau cefnogaeth i'r mudiadau gwirfoddol fyddai'n cynnig gwell gwerth am arian. Ychwanegodd y gellid gwneud hyn mewn ardal beilot lle mae trafferthion cludiant yn bodoli eisoes.
Nododd hefyd y gallai'r trydydd sector gael mynediad at gronfeydd, megis y Loteri Fawr, nad yw'n cefnogi'r sector gyhoeddus.

d) Adroddwyd ymhellach y gellid ystyried gwerth mynd â gwasanaethau at y cyhoedd, yn hytrach na disgwyl iddynt hwy deithio, yn arbennig o gofio'r trafferthion allai godi yn sgil newidiadau yn y system budd-daliadau. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor ystyried sut y gellir gwella'r dulliau o ymgynghori a chyrraedd at y cyhoedd.

dd) Cytunodd aelodau y dylid gweithio er mwyn tynnu'r cyhoedd i mewn i drafodaethau fel y gellir deall y gwendidau yn y gwasanaeth cludiant ac ystyried sut y gellir sicrhau gwelliant.

3b) _Cyfweliad gyda Barbara Snowball, cynrychiolydd Defnyddwyr Bysiau Mawddach_

a) Croesawodd y Cadeirydd Barbara Snowball i'r cyfarfod a diolchodd iddi am fynychu'r cyfarfod.

b) Cyfeiriodd y siaradwr at bryderon sy'n bodoli mewn perthynas ag effaith toriadau yn y gwasanaeth bws lleol yn ardaloedd gwledig Meirionnydd, a chyfeiriodd yn benodol at y gwasanaeth yn ardal Ward Llangelynnin .

c) Nodir gan yr ymgyrchwyr bod angen bysiau hwyrach i deithio rhwng Dolgellau a Thywyn. Cyfeirir yn benodol at drafferthion sy'n wynebu rhai sy'n teithio ar y bws i'r ysbyty ac oddi yno a nodir fod yr amserlen deithio'n gaeth ac anhwylus.

ch) Pwysleisir ymhellach gan yr ymgyrchwyr fod y gwasanaeth bws yn holl bwysig er mwyn hybu'r diwydiant twristiaeth a nodir ganddynt y byddai'r gymuned leol gyfan yn elwa pe byddai gwasanaeth bysiau hwyrach yn cael ei adfer.
Awgrymir ganddynt y gellid addasu'r amserlen am gyfnod prawf o flwyddyn. Maent o'r farn y byddai hyn yn eu galluogi hwy i dynnu sylw at yr opsiynau sydd ar gael ac annog mwy i ddefnyddio'r gwasanaeth bws.

d) Cyflwynodd Mrs Snowball enghreifftiau o broblemau mae unigolion yn wynebu yn ogystal â thrafferthion sy'n codi oherwydd amserlenni presennol bysiau.

dd) O safbwynt costau, nododd y byddai trefn gyfleus yn denu mwy i ddefnyddio'r gwasanaeth bysiau. Ychwanegodd fod hyn yn tanlinellu gwerth treialu newidiadau am

gyfnod o flwyddyn. Ond wrth roi lleihad yn nifer defnyddwyr fel rheswm am doriadau, pryderai y byddai'r gwasanaeth yn dirywio ymhellach.

3c) *Cyfweliad gyda Rona Lewis, Cyfarwyddwr Safle Dolgellau Coleg Meirion Dwyfor, a Linda Wyn, Uwch Gyfarwyddwr Gwasanaethau Academic, Grŵp Llandrillo Menai.*

a) Oherwydd bod Linda Wyn yn un o Uwch Gyfarwyddwyr Grŵp Llandrillo Menai, sy'n cynnwys Coleg Meirion Dwyfor Coleg Menai a Choleg Llandrillo, esboniwyd bod y wybodaeth fyddai'n cael ei gyflwyno'n ymdrin â materion ar draws Gwynedd.

b) Nodwyd mai un o'r prif bryderon yw'r ffaith bod myfyrwyr ôl 16 Gwynedd, yn yr ysgolion a'r colegau yn gorfod talu £180 y flwyddyn am ddefnyddio bysiau Gwynedd. Mae'r Grŵp bellach yn ymwneud â 4 sir a nodwyd bod myfyrwyr Môn yn talu £60 y flwyddyn ac nad yw myfyrwyr Conwy na Dinbych yn talu o gwbl am y gwasanaeth.
Ychwanegwyd bod uwch swyddogion y Cyngor wedi awgrymu y gallai rhai sy'n teimlo caledi oherwydd y tâl yma ddefnyddio'r Lwfans Cynnal Addysg.
Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai pwrpas y lwfans yma yw wynebu costau eraill, megis talu am offer sy'n gysylltiedig â chyrsiau galwedigaethol.

c) Ymhellach, nodwyd bod cyfyngiad ar y defnydd a ellir ei wneud o'r tocynnau bws. Er bod y taliadau'n cael eu gwneud, nid yw'r tocynnau bws yn cael eu derbyn ar rai llwybrau, ac felly rhaid talu swm ychwanegol. Yn ogystal, mae Cyngor Gwynedd yn mynnu fod taliadau am y tocynnau bws yn cael eu gwneud gyda chardiau credyd, a chredir fod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn rhai grwpiau o fyfyrwyr.

ch) Nododd y siaradwyr bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn anhyblyg iawn parthed y caniatâd a roddir i ddefnyddio'r tocyn dros dro. Gwrthodir y tocyn dros dro ar ôl tair wythnos er nad yw'r tocyn parhaol yn cyrraedd am bum wythnos ar rai achlysuron.

d) Rhoddwyd ystyriaeth i amseroedd y bysiau, ac esboniwyd fod y gwasanaeth yn annigonol gyda rhai yn methu mynychu rhannau hanfodol o'r cyrsiau yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r ffaith fod rhai yn rhoi'r gorau i'r astudiaethau'n tanlinellu'r trafferthion.
Esboniwyd hefyd fod yr amserlenni wedi eu trefnu i gyd-fynd â thymhorau ysgol sy'n wahanol i'r tymhorau yn y colegau. Yn sgil hyn mae myfyrwyr yn wynebu tâl ychwanegol o £5 y dydd.

dd) Mynegwyd pryder cyffredinol ynghylch dirywiad yn ystod ac ansawdd y gwasanaeth cludiant.

e) Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd bod oddeutu 15 o fyfyrwyr yn rhoi'r gorau i gyrsiau ar ddechrau tymor ar safle Dolgellau oherwydd yr anawsterau a'r caledi.

f) Mynegwyd pryder gan yr aelodau a nodwyd bod myfyrwyr yn colli cyfleoedd oherwydd diffyg hyblygrwydd a system annerbyniol ac annheg.

ff) Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am y wybodaeth ac addawodd y byddai ymholiadau pellach yn cael eu gwneud er sicrhau y bydd y materion yn cael eu dwyn i sylw'r Aelod Cabinet.

**PENDERFYNWYD awdurdodi'r Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu, mewn cydweithrediad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Cynghorydd Eurig Wyn, oedd yn gyfrifol am wneud y cynnig, i ddarparu rhestr o'r pryderon a fynegwyd a'u cyflwyno i'r Cabinet fel y gellir derbyn adroddiad yn ymateb i'r sylwadau.**

## 4. BALCHDER BANGOR

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu.

b) Atgoffwyd aelodau eu bod wedi ystyried cynnal ymchwiliad craffu i Gynllun Balchder Bangor ym mis Medi, 2012. Fodd bynnag, penderfynwyd bryd hynny rhoi blaenoriaeth i 'ddarparu tai i bobl leol.'

c) Yn sgil hyn, 'roedd Cynllun Balchder Bangor yn cael ei ail gyflwyno, ac esboniwyd y byddai'r ymchwiliad craffu'n rhedeg rhwng Ebrill a Rhagfyr 2013.

ch) Rhestrwyd nodiadau briffio'r aelodau gan Swyddogion Craffu a rhoddwyd cyfle i sylwadau gael eu cyflwyno gan aelodau.

d) Nododd aelod y byddai'n fuddiol rhoi ystyriaeth i amseroedd casgliadau ysbwriel amserol, yn arbennig felly yng nghyffiniau tai amlfeddiannaeth. Credai y gellid cydweithio hefo Undeb y Myfyrwyr wrth ymdrin â'r mater yma.

dd) Cytunodd aelod lleol fod angen newidiadau gan sicrhau fod biniau addas ar gael. 'Roedd yn gefnogol i'r awgrym y dylid cydweithio hefo'r myfyrwyr.

e) Cytunwyd y dylai 'rheolwr glanhau' fod yn rhan o raglen yr ymchwiliad craffu.

f) Cadarnhawyd mai Aelodau Arweiniol Grŵp yr Ymchwiliad Craffu fydd y Cynghorwyr: Eric M. Jones, Mandy Williams-Davies, Gwynfor Edwards, Nigel Pickavance, Dilwyn Morgan a Gruffydd Williams.

ff) Pwysleisiodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu fod yr Ymchwiliad Craffu'n golygu ymrwymiad amser sylweddol ac yr oedd am i aelodau'r Grŵp fod yn ymwybodol o hyn.

## 5. RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL

a) Cyflwynwyd fersiwn ddiweddaraf o'r Rhaglen Waith Flynyddol.

b) Nodwyd bod Canolfan Noddfa Deiniolen a Chynllun Hurio Ceir wedi eu hychwanegu i'r rhaglen ar gais aelodau.

c) Rhoddwyd cyfle i aelodau gyflwyno eitemau ychwanegol i'w cynnwys ar y rhaglen waith a mynegwyd pryder parthed 'defnydd o eiddo gwag' ac ail gartrefi.

ch) Mynegwyd pryder parthed sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod parthed methiant y Cyngor i ymgysylltu hefo'r cyhoedd. Cadarnhawyd fod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn rhoi ystyriaeth i'r mater ac y byddai'r wybodaeth yn cael ei drosglwyddo iddynt.

**PENDERFYNWYD ychwanegu'r ddau fater canlynol i'r rhaglen waith flynyddol:**

- **Defnydd o eiddo gwag;**
- **Ail gartrefi.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.15am a daeth i ben am 12.40pm

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **14 Mai 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **Canol Trefi** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. John Wynn Jones** |
| | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Roedd Cynllun Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi wedi ei gynnwys yng Nghynllun 3 Blynedd Cyngor Gwynedd ar gyfer 2011-14.

1.2. Prif nod y Cynllun yw ceisio cynorthwyo trefi mewn gwahanol rannau o'r sir ail-ganfod eu pwrpas fel prif ganolfannau gwaith / gwasanaethau, a'u delwedd fel mannau bywiog a deniadol i drigolion ac ymwelwyr. Mae'r Cynllun yn cynnwys gweithgareddau penodol sydd yn cael eu hariannu gan gyllidebau'r C3B; a hefyd yn cyd-blethu gyda rhai o weithgareddau a phrosiectau eraill yr Adran yn ystod yr un cyfnod.

1.3. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig diweddariad ar y sefyllfa bresennol.

## 2. Cyd-Destun Adfywio Canol Trefi

2.1. Mae adfywio canol trefi yn thema gynyddol bwysig gyda bygythiadau siopa ar y we a siopa ar gyrion trefi yn gynyddol amlwg. Mae'n her i geisio cadw bwrlwm yng nghanol ein trefi, yn enwedig mewn cyfnod o ddirwasgiad, ac mae astudiaethau a strategaethau cenedlaethol / rhanbarthol fwy diweddar wedi amlygu pwysigrwydd heriau sy'n wynebu ardaloedd canol trefi.

2.2. Rhagwelir sylw cynyddol tuag at fwrlwm ein trefi dros y blynyddoedd nesaf gyda strategaethau a pholisïau yn annog a gosod seiliau ar gyfer adfywio ein trefi.

## 3. Cynllun Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi

3.1. Mae'r Cynllun Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi wedi ei rannu yn chwe phrif weithgaredd. Mae crynodeb fer o'r gweithgareddau presennol wedi eu cynnwys yn Atodiad 1. Nodir hefyd fod y Cynllun yn cyd-fynd gyda phrosiectau strategol eraill y Cyngor i adfywio canol trefi, sydd hefyd wedi eu cynnwys yn yr Atodiad.

3.2. Yn unol â chais y Pwyllgor Craffu, rhannau nesaf o'r adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud a'r gwaith a gyflawnwyd, ynghyd a'r heriad cysylltiedig.

## 4. Y Gwaith a Gyflawnwyd hyd yma

Cam 1 – Gwaith Rhagbaratoi

4.1. Cychwynnwyd y cynllun drwy sgopio ac ymchwilio nodweddion canol trefi'r Sir ac adnabod pa gynlluniau, syniadau a dyheadau oedd yn lleol. Mae'r isod yn crynhoi'r math o waith ymchwil a wnaed:

- Ymgynghori cychwynnol gyda swyddogion, Siambrau Masnach a Grwpiau Busnes
- Cynnal Digwyddiadau gwybodaeth gyda Siambrau Masnach a Grwpiau Busnes
- Paratoi arolwg adeiladau gwag o fewn ffiniau masnach trefi
- Adnabod ymarfer da o fewn y maes adfywio canol trefi

Cam 2 – Adnabod ardaloedd Canol Trefi yng Ngwynedd

4.2. Penderfynwyd diffinio ardaloedd Canol Tref gan roi sylw i 'Ganolfannau Isranbarthol', 'Trefi' a 'Chanolfannau Lleol' fel sydd wedi eu hadnabod Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Chynllun Datblygu Lleol Eryri.

4.3. O ganlyniad, mae nifer o ganol trefi wedi eu hadnabod yn cynnwys Bangor, Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Pwllheli, Bethesda, Tywyn, Porthmadog, Abermaw, Dolgellau, Y Bala, Llanberis, Penygroes, Harlech, Nefyn, Abersoch, Cricieth, Penrhyndeudraeth, ac Aberdyfi.

4.4. Diffiniwyd canol y trefi yn unol â ffiniau ardaloedd masnach Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Chynllun Datblygu Lleol Eryri.

Cam 3 : Meithrin cysylltiadau gyda Grwpiau Busnes / Siamberi Masnach

4.5. Yn dilyn ymgynghori cychwynnol gyda grwpiau busnes, rhoddwyd trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod cyswllt penodol wedi ei adnabod ar gyfer pob grŵp busnes unigol. O ganlyniad, rhoddir gryn bwyslais ar geisio cyd-weithio gyda gweithgareddau'r grwpiau hyn, yn hytrach na datblygu cynlluniau gwbl arwahan.

4.6. Dosbarthwyd gwybodaeth bellach am agweddau o'r cynllun, ac fe osodwyd hysbysebion yn y wasg leol yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan grwpiau busnes gyflwyno cynigion neu syniadau ar gyfer wahanol fesurau'r Cynllun.

Cam 4 – Gweithredu Gweithgareddau

4.7. Mae'r gwaith rhagbaratoi a'r gweithredu cychwynnol wedi bod ar waith ers 2011. Bydd 2013/14 yn flwyddyn o gwblhau'r gweithredu yn gysylltiedig â'r Cynllun. Mae Atodiad 1 yn cyfeirio at y gweithgareddau unigol (ynghyd â gweithgareddau atodol cysylltiedig) gan amlinellu diweddariad y gweithgareddau a'r gwaith sydd angen cwblhau ei weithredu yn 2013/14.

## 5. Heriau yn Gysylltiedig â’r Cynllun

5.1. Mae Cynllun Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi bellach yn weithredol gyda chamau clir wedi eu dilyn wrth ddatblygu a gweithredu'r cynllun. Gwynebwyd heriau yn gysylltiedig gyda phob cam o’r cynllun o’r gwaith ymchwil cychwynnol i’r gwaith gweithredu.

5.2. Yn gyffredinol amlygwyd yr isod fel heriau :

| | Heriau | Ymateb |
|---|---|---|
| ***1. Cyfnod Datblygu*** | | |
| 1.1. | Amserlen dynn i weithredu | Gosodwyd allbynnau ar gyfer blynyddoedd cyntaf y rhaglen heb gydnabod maint y gwaith paratoi/ymchwil oedd ei angen. |
| 1.2. | Trawstoriad o drefi bychan yng Ngwynedd | Mae nifer helaeth o drefi yng Ngwynedd sydd yn gweithredu fel prif ganolfan i’r trigolion. Mae’r rhain yn amrywio o’r prif drefi, trefi marchnad, trefi glan mor i drefi bychan. Roedd yn her i ddiffinio pa drefi y dylid canolbwyntio arnynt er mwyn cael yr ardrawiad mwyaf positif drwy’r Sir. |
| 1.3. | Angen gwaith cefndirol | Roedd diffyg gwaith ymchwil a gwaelodlin ar gyfer trefi'r Sir fyddai’n adlewyrchu beth oedd anghenion penodol a’r cyfleon oedd ar gael ym mhob tref. |
| 1.4. | Cyswllt rhwng sefydliadau busnes canol trefi a’r Cyngor. | Amlygwyd angen i gryfhau cysylltiadau rhwng y sefydliadau busnes y trefi gyda’r Cyngor. Cryfhawyd hyn drwy gysylltu yn uniongyrchol gyda phob sefydliad busnes. |
| 1.5. | Gwahodd syniadau a diddordeb ar gyfer elfennau Gwella Delwedd y Cynllun | Ymateb cymysg i ymgyrchoedd yn y wasg i rannu syniadau a allai gael eu gwireddu drwy’r cynllun. |
| ***2. Cyfnod Gweithredu*** | | |
| 2.1. | Maint cyllideb | Rhaglen o gynlluniau bychan yn unig sydd bosibl eu gweithredu oherwydd cyfyngiad y gyllideb o £223k ar gyfer y cynllun. Targedwyd cronfeydd ychwanegol at elfennau o’r cynllun. |
| 2.2. | Materion a heriau ehangach yn wynebu canol trefi | Mae nifer sylweddol o ffactorau yn effeithio ar ddelwedd a hyfywdra canol trefi, sydd tu hwnt i reolaeth y cynllun. Mae cyflwr yr economi, a newidiadau mewn patrymau siopa yn enghreifftiau o hyn. |
| 2.3. | Capasiti o fewn yr Adran i weithredu | Mae i’r Cynllun nifer helaeth o gynlluniau sydd â llawer o waith yn gysylltiedig â hwy. O ganlyniad, bu raid cynyddu anodau o fewn yr Adran er mwyn bwrw ymlaen gyda’r trefniadau gweithredu. |
| 2.4 | Amserlen yn llithro | Amgylchiadau tu hwnt i reolaeth ynghyd chyfnod y cam paratoi/datblygu yn golygu fod rhan fwyaf o’r |

| | | |
|---|---|---|
| | | gweithredu yn 2013/14. |

5.3. Mae'r Cynllun wedi bod yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer treialu mesurau ar gyfer bywiocau canol trefi – gan geisio adeiladau ar ymarferion da mewn lleoliadau eraill. Serch hynny, oherwydd yr heriau uchod ac yn benodol y gyllideb gymharol gyfyng roedd ymateb i'r heriau sylweddol sy'n wynebu ardaloedd canol trefi ynghyd a busnesau cysylltiedig yn sialens.

## 6. Cyfleoedd i'r Dyfodol

6.1 Cafodd y Cynllun Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi ei raglennu fel prosiect 3 blynedd. Yn ystod y 2 flynedd gyntaf, mae gryn waith wedi ei wneud, yn arbennig o safbwynt gwaith datblygol a sefydlu trefniadau cyfathrebu a gweithredol. Dylid nodi hefyd fod cynlluniau strategol cysylltiedig hefyd wedi eu gweithredu yn ystod y cyfnod gan sicrhau grantiau allanol sylweddol.

6.2 Gan fod y gwaith datblygol bellach wedi ei gwblhau, mae trefniadau ac ymrwymiadau eisoes mewn lle ar gyfer gweithredu a chwblhau'r ffrydiau gwaith yn ystod 2013/4

6.3 Yn gysylltiedig â'r gwaith presennol, rhagwelir fod cyfleoedd i ddatblygu agweddau newydd ar gyfer gwella a bywiocau canol trefi. Byddai angen gwaith datblygol pellach, ond mae'r cyfleodd sydd yn amlygu ar hyn o bryd yn cynnwys :

- Cyfle i'r Cyngor gymryd gorolwg holistaidd ar ardaloedd canol trefi, gan ystyried ystod eang o wasanaethau a ddarparir gan yr awdurdod
- Cynllun Cerdyn Hybu Siopa'n Lleol Gwynedd
- Ymchwilio i gyfleoedd o sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes
- Bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi ymgyrch sydd yn nodi bwriad o gyhoeddi ymgyrch Cefnogi'r Stryd Fawr yng Nghymru ym mis Mehefin 2013 (fel a nodir yn ei Fframwaith Adfywio Newydd
- Datblygiad Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd, gan gynnwys posibilrwydd o'i ddatblygu ymhellach i ardal leol
- Datblygiad polisïau manwl y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â defnydd tir ac adeiladau o fewn canol trefi
- Adolygiad Trethi Busnes Llywodraeth Cymru

6.4 Rhagwelir y byddai angen ystyried unrhyw waith datblygol mewn perthynas â'r uchod yng nghyd destun cynllun strategol newydd y Cyngor. Rhagwelir y bydd cynigion yn cael eu datblygu o dan flaenoriaeth 'Cryfhau Gwytnwch Busnesau a Chadw'r Budd yn Lleol'.

*ATODIAD 1 : CRYNODEB O'R GWEITHGAREDDAU PRESENNOL (2011 – 2013)*

| | Cynllun | Disgrifiad | Cyllideb C3B | Arianwyr Eraill | Gwaith wedi ei gwblhau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. C3B : CYNLLUN GWELLA A BYWIOCAU CANOL TREFI** | | | | | | |
| 1.1 | Rhesymoli'r Stryd Fawr | Dadansoddiad capasiti manwerthu trefi unigol wedi ei baratoi (drwy'r Adran Gynllunio | - | Adran Gynllunio | Astudiaeth Capasiti Manwerthu Canol Trefi wedi ei gwblhau. | Gwybodaeth wedi ei baratoi i'w ystyried wrth lunio polisïau cynllunio Cynllun Datblygu Lleol |
| 1.2 | Gwella Delwedd Canol Trefi | Gwelliannau amgylcheddol raddfa fechan er mwyn codi ansawdd delwedd a chynyddu balchder | £90k | C3B<br>Môn Menai | Gweithredu gwelliannau yn Porthmadog a Llanberis.<br>Proses arloesol wedi ei threialu ar gyfer llunio pecyn ym Methesda - cyfle i'w fabwysiadu mewn ardaloedd eraill. | Syniadau am gynlluniau tirlunio bychain wedi ei derbyn yn Bala, Abermaw, Pwllheli, Dolgellau a Harlech. |
| 1.3 | Gwella Delwedd Siopau Gwag | Gwella edrychiad adeiladau gwag drwy drefnu lluniau 'vinyls' yn y ffenestri. | £15k | C3B | Cwmni wedi ei benodi ar gyfer dylunio a gosod y 'vinyls'. Targed o 36 eiddo yn ddibynnol ar faint yr eiddo.<br>2 gynllun peilot wedi ei adnabod yn Nefyn a Bethesda ac i'w gosod Mai 2013. | Gwerthuso'r wedd gyntaf, gweithredu ymgyrch yn y wasg er mwyn denu mwy o ddiddordeb gan eiddo. Gweithredu Gwedd 2 yn 2013 |
| 1.4 | Mentrau Siopau Gwag | Cynllun i annog defnydd siopau gwag drwy gefnogi a hybu entrepreneuriaeth gan dargedu clwstwr Cymunedau'n Gynaf | £15k | C3B<br>Cymunedau'n Gyntaf<br>Môn Menai | Pecyn ariannol £165k wedi ei sicrhau ac yn weithredol yn ystod 2013/14. | Briff ar gyfer rheoli'r cynllun wedi ei lunio a phroses gaffael ar waith gyda thendrau i'w dychwelyd ganol Mai. |

| | Cynllun | Disgrifiad | Cyllideb C3B | Arianwyr Eraill | Gwaith wedi ei gwblhau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.5 | Pecyn Datblygu'r Sector Manwerthu | Pecyn cyngor arbenigol ac annibynnol i fusnesau unigol. Cymorth grant i gynorthwyo i weithredu argymhellion arolwg busnes | £26k | C3B | 17 adolygiad busnes wedi ei gwblhau<br>7 busnes wedi derbyn grant i weithredu argymhellion | Parhau i hyrwyddo a chynnig cefnogaeth i fusnesau yn 2013. |
| 1.6 | Uwchraddio Eiddo Canol Tref | Grant (hyd ar £1k) i berchnogion uwchraddio edrychiad eiddo mewn ardaloedd masnachol | £25k | C3B | 19 eiddo wedi ei uwchraddio.<br>Cynllun yn targedu ardaloedd tu allan i ardal Môn Menai. | Parhau i hyrwyddo a chynnig cefnogaeth i fusnesau yn 2013. |
| 1.7 | Cynllun Parcio am Ddim | Cynllun yn cynnig parcio am ddim ym meysydd talu ac arddangos y Cyngor dros gyfnod y Nadolig. | - | - | Arolwg wedi ei drefnu dros gyfnod Nadolig 2013 i ystyried barn am y cynllun. | Trefniadau i'r dyfodol i'w ystyried fel rhan adolygiad parcio ehangach. |
| 1.8 | Hybu Siopa'n Lleol | Ymgyrchoedd i hybu siopa'n lleol wedi eu gweithredu dros gyfnod yn arwain at y Nadolig yn 2011 a 2012 | £13k | C3B | Ymgyrch ar Heart FM a'r cyfryngau lleol.<br>Cystadleuaeth ar brofiadau siopa lleol i bobl ifanc.<br>Sefydlu safle ar wefan gymdeithasol i hyrwyddo bargeinion/gostyngiadau siopau lleol | Adnabod cyfleon i hybu siopa yn lleol dros gyfnodau eraill yn y flwyddyn ar wahân i'r Nadolig.<br>Llunio Rhaglen Hyrwyddo Siopa yn lleol ar gyfer Nadolig 2014. |
| | | Cefnogaeth i ddigwyddiadau canol trefi dros Nadolig 2012 | Uchod | C3B | Digwyddiadau wedi eu cynnal yn Abermaw, Blaenau Ffestiniog, Llanberis, Bethesda, Pwllheli, Bala, Dolgellau a Bangor | Fel uchod. |

| | Cynllun | Disgrifiad | Cyllideb C3B | Arianwyr Eraill | Gwaith wedi ei gwblhau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Brandio a hyrwyddo siopa yn lleol yng Ngwynedd | £9.5k | C3B | Bwrdd Prosiect wedi adnabod yr angen i lunio Canllawiau Brand ar gyfer hyrwyddo siopa yng Ngwynedd ac edrych ar opsiynau sut i hyrwyddo gostyngiadau i'r trigolion lleol. | Briff ar gyfer rheoli'r cynllun wedi ei lunio a phroses gaffael ar waith gyda thendrau i'w dychwelyd diwedd Mai. |
| 1.9 | Marchnata | Cefnogaeth i grwpiau busnes i hybu a marchnata trefi unigol | £30k | C3B | Wedi ei raglennu yn wreiddiol ar gyfer Bl 3 y cynllun. | Llunio rhaglen weithredu ar gyfer marchnata. |
| **2. CYNLLUN GWELLA TREF (RHAN O RAGLEN MÔN MENAI)** | | | | | | |
| 2.1 | Grantiau Gwella Tref | Grant i berchnogion uwchraddio edrychiad eiddo mewn ardaloedd masnachol | *£1.1m* | Môn Menai | 22 eiddo masnachol wedi eu huwchraddio yn 2011/12, a 27 eiddo yn ystod 2012/13. | Cyllideb o £500k wedi ei sicrhau ar gyfer 2013/14 |
| **3. CYNLLUNIAU ADFYWIO TREFOL STRATEGOL (RHAN O RAGLEN CYDGYFEIRIANT)** | | | | | | |
| 3.1 | | Cynlluniau Adfywio Trefol Caernarfon a Bangor | *£7.5m* | ERDF, Llywodraeth Cymru, CG | Cynlluniau wedi eu gweithredu yng nghanol tref Caernarfon a Bangor (Adran Reoleiddio) | Buddsoddiad cyfalaf wedi ei gwblhau. |
| 3.2 | | Cynllun Adfywio Blaenau Ffestiniog | *£4.4m* | ERDF, Llywodraeth Cymru, CG | Cynllun Canol Tref wedi ei weithredu. | Gwedd olaf o'r cynllun i'w gwblhau yn 2013/4. |

| | Cynllun | Disgrifiad | Cyllideb C3B | Arianwyr Eraill | Gwaith wedi ei gwblhau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4. CYNLLUNIAU ADFYWIO CANOL TREFI BLAENOROL** | | | | | | |
| 4.1 | | Cynllun Ymateb i'r Dirwasgiad – Peilot Pwllheli | £30k | Cyngor Gwynedd | Y cynllun wedi cyfrannu a chefnogi Partneriaeth Pwllheli i weithredu rhaglen o welliannau gweledol megis paneli gwybodaeth, Cynllun Celf Pwllheli, baneri a photiau blodau. | Cynllun wedi ei gwblhau |
| 4.2 | | Cynllun Ymateb i'r Ffordd Osgoi Porthmadog<br>Gweler 1.2. uchod. | £34k | Cyngor Gwynedd<br>Croeso Cymru | Sefydlu Grŵp Ymateb i'r Ffordd Osgoi o gymunedau/busnes Penrhyndeudraeth, Minffordd, Porthmadog a Thremadog.<br>Llunio Cynllun Gweithredu i ymateb i'r her a manteisio ar gyfleon.<br>Gweithredu pecyn o welliannau megis paneli gwybodaeth, raciau beics, nodweddion cylchfan. | Cwblhau cynlluniau penodol yn Nhremadog yn 2013. |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **14 Mai, 2013 am** |
| **TEITL YR EITEM** | **Hostel Noddfa, Deiniolen** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd John Wyn Williams** |
| | |

## 1.0 Cefndir a Chyd-destun

Cyflwynwyd cais am adroddiad Craffu yn dilyn trafodaeth ym Mhwyllgor Ardal Arfon ar y 13eg o Fawrth 2013. Roedd hyn mewn ymateb i ddigwyddiad tu allan i eiddo preifat yn ymwneud a pherson oedd yn preswylio yn Hostel Noddfa. Arweiniodd hyn at drafodaeth ynglŷn â phwrpas a rôl Hosteli o fewn gwasanaeth digartref Cyngor Gwynedd. Mae'r achos unigol bellach wedi ei drin o dan y drefn droseddol ac nid gwaith y Pwyllgor Craffu yw craffu ar achosion unigol. Pwrpas yr adroddiad yma yw archwilio perthnasedd defnyddio hosteli i ddarparu gwasanaethau i bobl ddigartref ac ystyried y trefniadau sydd mewn lle i gynorthwyo'r awdurdod gwrdd â chyfrifoldebau statudol.

## 2.0 Cyfrifoldebau Statudol Cyngor Gwynedd

Mae darparu gwasanaethau i bobl ddigartref yn un o gyfrifoldebau statudol Cyngor Gwynedd ac mae'r disgwyliadau yma wedi eu hamlinellu yn y ***Ddeddf Tai 1996 rhan v11 cyfadran 188***. Mae'r Ddeddf yn nodi cyfrifoldeb y Cyngor i ddarparu llety argyfwng i bobl sy'n canfod ei hunain yn ddigartref. Mae'r diffiniad o bobl ddigartref yn cynnwys pobl sydd mewn bygwth o golli, neu fydd yn annhebygol o allu parhau yn eu llety presennol. Disgwylir i'r awdurdod sicrhau fod "llety addas" ar gael i'r ymgeisydd a/neu ei deulu am gyfnod hyd nes y gellid dod o hyd i lety sefydlog.

Ymdrechir i gwrdd â'r ddyletswydd mewn sawl ffordd gan gynnwys darpariaeth hostel. Mantais hosteli yw ei bod yn caniatáu i'r Cyngor ddarparu llety yn gyflym mewn argyfwng i grwpiau bregus.

Mae *Gorchymyn Digartref 2006 (Addasrwydd Llety)* Cymru yn nodi ei bod yn ystyried nad yw'n addas i awdurdodau lleol gwrdd â'r cyfrifoldebau statudol drwy ddarparu llety mewn Gwely a Brecwast, yn arbennig ar gyfer grwpiau bregus.

Mae ymateb a  chydymffurfiad gwasanaethau'r Cyngor wrth gwrdd â'i ddyletswydd  yn cael ei archwilio yn rheolaidd gan y Cynulliad ac yn cael ei herio gan gyrff allanol megis Shelter.

Mae disgwyliad ar aelodau'r cyngor fodloni ei hunain bod yr awdurdod yn gallu cwrdd â'i ddyletswyddau statudol.

**2.1 Angen a Galw am y Gwasanaeth**

Mae Hostel Noddfa ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd ers 1974, ac yn un o ddwy hostel ar gyfer pobl ddigartref sy'n cael eu rhedeg gan Gyngor Gwynedd. Ystyrir bod gwasanaeth hostel yn bwysig i'r gwasanaeth digartrefedd am amryfal resymau.

- Mae'n cynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â'i gyfrifoldebau cyfreithiol.
- Mae'n caniatáu ymateb cyflym i sefyllfaoedd sy'n amlygu ac yn ffordd o ddarparu llety diogel i bobl mewn sefyllfaoedd bregus.
- Mae'n ffordd gost effeithiol o ddarparu llety yn arbennig i deuluoedd.
- Mae'n cynnig awyrgylch saff a gwarchodol gan fod staff ar ddyletswydd i oruchwylio ac ymateb i sefyllfaoedd sy'n amlygu.
- Mae goruchwyliaeth o achosion unigol a mesurau diogelwch mewn lle.
- Mae wedi cynorthwyo nifer o bobl adfer eu bywydau ar ôl y profiad anffodus o golli eu cartref.

Er ein bod  yn gallu  defnyddio math arall o lety i gwrdd â chyfrifoldebau statudol, gan gynnwys eiddo ar les, mae'n anodd sefydlu trefniadau o'r fath yn gyflym ac nid ydynt bob amser yn addas  i rai grwpiau. Mae cyfnod mewn hostel yn gallu bod yn ddefnyddiol i adnabod y math mwyaf priodol o lety ar gyfer yr unigolion ac i adnabod unrhyw anghenion cefnogol.

**2.2 Natur Lleoliadau o Fewn yr Hostel**

Cyn i unigolyn gael eu derbyn i'r Hostel  mae'r  gwasanaeth digartref yn cwblhau asesiad ffurfiol yn unol â threfniadau statudol y Cyngor er mwyn adnabod cyfrifoldebau'r Cyngor. Byddant hefyd yn cwblhau asesiad risg i sicrhau bod y lleoliad yn addas ar gyfer lleoliad yn yr Hostel. Defnyddir Noddfa yn bennaf fel Hostel ar gyfer teuluoedd  ac achosion  risg isel yn arbennig  rhieni  sengl, teuluoedd ifanc, merched yn dianc rhag trais, pobl ifanc ac achosion  eraill sy'n addas i letya  gyda'r grŵp uchod. Oherwydd natur yr unigolion  sy'n cael eu lletya, mae'r gwasanaeth yn ofalus ynglŷn â'r math o bobl sy'n cael eu derbyn i'r hostel. Ni fydd yr hostel yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pobl a chefndir treisgar.

Dangosodd  dadansoddiad o leoliadau ers Ebrill 2012 fod :-

- 49% o’r lleoliadau yn deuluoedd gyda phlant.
- 77% o’r lleoliadau yn ferched.
- llai na 10% yn ddynion sengl.

Ni dderbynnir achosion i’r gwasanaeth digartref heb fod ganddynt gyswllt lleol, oni bai fod cyfrifoldeb statudol neu gyfreithiol i wneud hynny e.e. achos o drais yn y cartref. Ers Ebrill 2012 dim ond 1 achos, heb gyswllt lleol sydd wedi derbyn lleoliad yn Noddfa ac roedd gan yr achos berthynas agos (rhiant) yn byw yng Ngwynedd. Daeth y gweddill o’r lleoliadau o ardal Arfon gyda 1 o ardal Dwyfor felly mae’r hostel yn adnodd sy’n darparu gwasanaeth i bobl sydd â chysylltiad â Gwynedd.

### 2.3 Darpariaeth Arall ar gyfer Pobl Ddigartref o Fewn Gwynedd

Yn y blynyddoedd diweddar mae Cyngor Gwynedd ynghyd a 7 saith Cyngor arall yng Nghymru wedi derbyn beirniadaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol am fod yn or-ddibynnol ar ddarpariaeth gwely a brecwast. Ystyrir bod darparu llety mewn hostel yn ffordd amgenach o ddarparu gwasanaethau yn arbennig ar gyfer rhai grwpiau bregus gan fod cefnogaeth a goruchwyliaeth yn cael ei ddarparu. Heb ddarpariaeth Hostel byddai dibyniaeth Gwynedd ar Wely a Brecwast yn debygol o gynyddu, a byddai darpariaeth amgen yn debygol o fod yn fwy costus i’r Cyngor ac yn golygu y byddai unigolion yn gorfod cael eu lleoli heb warchodaeth.

Mewn cyfnod o ddirwasgiad ariannol, a chysgod diwygiadau lles mae llawer o sylwebyddion yn darogan y bydd y galw ar wasanaethau digartrefedd yn debygol o gynyddu. Yn yr hinsawdd bresennol bydd yn bwysig bod gan y Cyngor adnoddau digonol a phriodol i ymateb i’r galw.

Gan fod pobl sy’n aros yn yr hostel yn gallu cymhwyso i dderbyn budd-dal tai a bod y gwasanaeth yn derbyn Grant Cefnogi Pobl mae darparu gwasanaeth mewn hostel yn gost effeithiol i awdurdod gan fod y Cyngor yn gallu adennill y gost o ddarparu gwasanaeth. Mewn cymhariaeth byddai’r gost o ddarparu gwasanaeth i deulu mewn gwely a brecwast yn gallu bod dros **£400** yr wythnos heb unrhyw ad-daliad.

### 2.4 Rheolaeth yr Hostel

Mae’r hostel yn cyflogi 9 aelod o staff yn yr hostel (2 aelod staff llawn amser a 7 aelod rhan amser). Mae staff yn sicrhau bod goruchwyliaeth yn ystod y dydd a dros y penwythnosau ac mae staff nos yn cysgu i mewn.

Cyn derbyn lleoliad i’r Hostel bydd y gwasanaeth digartref yn cwblhau ymholiadau cefndir a disgwylir i bob ymgeisydd arwyddo trwydded tenantiaeth gan ymrwymo i ymddwyn mewn ffordd briodol a chyfrifol tuag at staff, trigolion a’r gymuned leol (gweler copi yn atodiad 1 ynghlwm). Yn ystod yr arhosiad bydd

staff yn arolygu cydymffurfiad gyda'r  safonau ymddygiad. Os na fydd unigolion yn  cydymffurfio maent yn gallu colli'r i hawl i dderbyn gwasanaeth.

Mae offer CCTV a mesurau diogelwch eraill wedi ei gosod ar y safle, ac mae perthynas waith dda wedi ei sefydlu gyda'r heddlu gydag ymweliadau rheolaidd i sicrhau bod trefn  i ymateb i ddigwyddiadau neu ymddygiad amhriodol ac i arolygu a rhannu gwybodaeth.

**2.5 Digwyddiadau**

Dengys cofnodion mai prin iawn fu'r  galwadau i'r heddlu yn ymwneud  â thrigolion Noddfa dros 5 mlynedd diwethaf. Er bod achosion wedi cofnodi, gwyddom fod rhai o'r galwadau yn ymwneud a digwyddiadau gwrthgymdeithasol tuag at drigolion yr hostel a/neu yn gysylltiedig â digwyddiadau mae trigolion wedi wynebu yn  deillio o'r cyfnod cyn eu derbyn.

Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth yn awgrymu  fod cynnydd yn nifer y digwyddiadau yn ddiweddar neu fod patrwm cyson o ddigwyddiadau. Ers  yr achos ym mis Ionawr 2013 nid ydym yn ymwybodol fod unrhyw  gwyn pellach wedi ei dderbyn yn ymwneud a phreswylwyr Noddfa.

Fel gwasanaeth rydym yn cydnabod bod y digwyddiad yn annerbyniol, ond cafodd ei drin yn y ffordd briodol gan yr heddlu a'r llysoedd. Nid ydym yn credu y gallwn fod wedi rhagweld yr hyn a ddigwyddodd  a ni chredwn fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredin. Er yn  sylweddoli bod teimladau cryf ymhlith y gymuned a bod pobl yn anhapus ynglŷn â'r digwyddiad  ni chredwn fod achos i newid y ffordd o ddarparu gwasanaeth ar sail un digwyddiad eithriadol.

Gwyddwn fod  cred yn ardal Deiniolen fod y gymuned wedi ysgwyddo baich o ran y gwasanaeth hostel  am nifer o flynyddoedd  ac nad yw'r ardal o'r farn ei bod wedi elwa o bresenoldeb Noddfa. Ymddengys hefyd fod  canfyddiad ehangach fod ardal  Deiniolen wedi hanfanteisio.  Er gall fod cydymdeimlad gyda'r ddadl fod yr ardal wedi ysgwyddo baich drwy roi cartref i'r hostel  nid yw hyn yn rheswm dros danseilio'r defnydd o hosteli digartref  fel model addas i ddarparu gwasanaeth statudol i bobl ddigartref.

**2.6 Mesurau Rheolaethol:**

Mae  nifer o  fesurau mewn bodolaeth  ers amser  i geisio lleihau effaith yr Hostel ar y gymuned ac rydym wedi adolygu'r trefniadau  a chyflwyno'r addasiadau pellach i geisio lleihau ymhellach y posibilrwydd o ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae'r mesurau'n cynnwys:-

1. Cadarnhau  trefn  i gofnodi ac archwilio honiadau o ymddygiad amhriodol a sicrhau bod rhifau cyswllt uniongyrchol i ddwyn sylw at unrhyw bryderon.

2. Adolygu'r  Trefniadau Asesu Risg i adnabod a oes unrhyw ffordd o gryfhau trefniadau sy'n bodoli.
3. Cryfhau'r drefn o gwblhau ymchwiliadau cefndirol, yn arbennig unigolion sy'n gysylltiedig â'r prif ymgeisydd.
4. Newid amser  cloi'r drws o 11 o'r gloch i 10 o'r gloch yr hwyr oni bai bod rhesymau dilys e.e. bod unigolyn yn gweithio neu fod trefniant  wedi ei gytuno ymlaen llaw.
5. Rhoi cyfnod rybudd (3 mis) ar yr eiddo preifat  oedd yn  cael ei ddefnyddio i roi llety i bobl ddigartref yn  Neiniolen.  Er nad oedd cyswllt gyda Noddfa y bwriad oedd lleihau nifer o bobl ddigartref yn yr ardal.

Rydym hefyd wedi cynnig y dylai cynrychiolwyr o'r gymuned ymweld â'r hostel i weld y trefniadau rheoli sydd gennym mewn lle a chadarnhau y byddwn yn barod i gael cyfarfodydd gyda chyngor cymuned. Credwyd y byddai'r  mesurau yma  yn ein galluogi i ymchwilio a chymryd camau os bydd unigolion yn ymddwyn yn amhriodol ac o gymorth i geisio adeiladu perthynas  ac i drafod a chyfnewid gwybodaeth; hyd yma nid yw'r cynhigion yma wedi ei derbyn.

**2.7 Darpariaeth Amgen**

Gan fod gan y Cyngor gyfrifoldebau statudol byddai'n anodd  terfynu'r gwasanaeth presennol, heb sicrhau darpariaeth gyfatebol a byddai  angen adnoddau cyfalaf  a chaniatâd cynllunio i greu darpariaeth mewn ardal arall. Petai hynny yn ddymuniad byddai angen amser digonol i wneud hyn a byddai'n rhaid dynodi arian ar gyfer y gwaith. Rydym yn parhau yn argoeddedig bod darparu gwasanaethau drwy hosteli yn ffordd briodol ac effeithiol o gwrdd â chyfrifoldebau statudol digartrefedd, yn arbennig ar gyfer y rhai mwyaf bregus o fewn cymdeithas.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi i wella ansawdd ac addasrwydd Hostel Noddfa dros  y 6 blynedd diwethaf. Bu gwariant cyfalaf o  dros £100,000 uwchlaw'r rhaglen cynnal a chadw blynyddol.

**Atodiad 1 - Amg**

*(Telerau ac Amodau Tenantiaeth)*

**CYNGOR GWYNEDD**

**GWASANAETH TAI**

**SWYDDFA'R CYNGOR,**
**CAERNARFON,**
**GWYNEDD,**
**LL55 1SH**

# HOSTEL

# CYTUNDEB TRWYDDED

*Mae'r Cytundeb hwn yn gytundeb cyfreithiol. Mae'n disgrifio eich hawliau a'n hawliau a chyfrifoldebau. Pan fyddwch yn llofnodi'r Cytundeb byddwch wedi ei rhwymo ganddo. Os nad ydych yn siŵr am hyn, gallwch gael cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth.*

(Ynghlwm wrth y Cytundeb hwn mae :
Amodau Terfynu Trwydded,
Rheolau ac Amodau Meddiannu)

**MAE'R CYTUNDEB TRWYDDED YMA RHWNG**

**Cyngor Gwynedd**, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

A ........................................................ (y cyfeirir atynt bellach fel 'Y Trwyddedai')

AR GYFER meddiannu ...................................................................................
(Y cyfeirir atynt bellach fel 'Y Safle')

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd o natur dros dro a bydd yn cynnwys ystafell wely a defnydd ar y cyd o gegin, ystafell fwyta, lolfa, ystafell ymolchi a chyfleusterau toiled. Mae cefnogaeth Staff yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod rheolaeth yr uned yn unol â'r amodau sydd ynghlwm.

Y tâl rhent dyddiol ar gyfer y defnydd a meddiannaeth yr eiddo yw £ ...............

Mae Ystafell ................................ wedi cael ei dyrannu ar eich cyfer

Bydd y lleoliad yn cychwyn o ............................

Mae trwydded ond yn caniatáu i chi feddiannu a gellir yn gyfreithiol ei derfynu gan Gyngor Gwynedd heb reswm. {Bydd Cyngor Gwynedd yn dod ar trefniant i ben oherwydd torri'r amodau ynghlwm}. Dylech fod yn ymwybodol nad oes sicrwydd mewn meddiant trwyddedig sydd am gyfnod dros dro yn unig.

**Rwy'n cadarnhau fy mod yn derbyn y drwydded hon ac yn cytuno i gadw at yr amodau deiliadaeth fel y nodir drosodd. Yr wyf yn ymwybodol y bydd methiant i gadw at yr amodau hyn yn arwain at ddileu y caniatâd i fyw yn yr Hostel.**

**Llofnodwyd ................................ Dyddiad ...................... Trwyddedai**

**Llofnodwyd ................................ Dyddiad ...................... i Gyngor Gwynedd**

**RHYBUDD I DDEILIAD O HOSTEL CYNGOR GWYNEDD**

1. Mae'r Cyngor yn rhoi caniatâd ac awdurdod i chi i fyw yn ei hostel.
2. Nid yw caniatâd ac awdurdod i feddiannu o'r fath yn rhoi unrhyw ddiddordeb neu ystâd yn yr hostel i chi.
3. Gall caniatâd neu awdurdod y Cyngor gael ei ddiddymu gan y Cyngor, a gall y Cyngor wneud hyn ar unrhyw adeg, gan roi rhybudd ymadael i chi. Gall hysbysiad o'r fath fod ar lafar a bod yn weithredol ar unwaith.
4. Ni fydd y Cyngor angen Gorchymyn Llys i ddibenion eich troi allan.
5. Gall rhybudd i roi'r gorau i fyw yn yr eiddo gael ei roi gan y cyngor am unrhyw reswm rhesymol.
6. Rydych wedi cael eich ystafell benodol, ac mae'r Cyngor yn cael yn ôl ei ddisgresiwn llwyr yr hawl i'w gwneud yn ofynnol i chi symud i ystafell arall o fewn yr hostel.

Dyddiedig: ........................................

Llofnodwyd: ..........................................

Ar gyfer ac ar ran
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**TERFYNU TRWYDDED (nodiadau esboniadol)**

## 1) EICH CYFRIFOLDEBAU

### TERFYNU'R CYTUNDEB TRWYDDED

Gallwch derfynu'r Cytundeb hwn ar unrhyw adeg drwy ddweud wrth un o staff yr Hostel pan fyddwch yn gadael. Os yn bosibl, rhowch gymaint o rybudd a sy'n bosibl.

Pan fyddwch yn gadael rhaid i chi adael yr eiddo mewn cyflwr addurnol da ac mewn cyflwr glân a thaclus. Rhaid i chi hefyd adael y gosodiadau a'r ffitiadau a ddarparwyd gan yr Hostel mewn cyflwr da. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw beth a adawyd yn yr eiddo ganddoch ar ddiwedd y Cytundeb Trwydded.

## 2) HAWLIAU'R CYNGOR

### TERFYNU'R CYTUNDEB TRWYDDED

Gall Cyngor Gwynedd derfynu'r Cytundeb hwn trwy roi rhybudd i chi ar unrhyw adeg.

Gall y Cyngor ddiweddu'r Gytundeb Trwydded hwn am unrhyw rhesymol, ac yn ychwanegol neu yn y dewis arall:

a) nad ydych wedi talu'r taliadau wythnosol sy'n ddyledus.
b) yr ydych wedi bod yn dreisgar neu wedi bygwth trais i breswylydd arall, cymydog, aelod o staff neu ymwelydd i'r eiddo.
c) eich bod wedi torri unrhyw un o'r amodau yn y Cytundeb hwn.
d) eich bod wedi achosi difrod i'r eiddo, y gosodion neu ffitiadau yn yr eiddo.
e) Rydych wedi achosi ymddygiad sy'n gallu achosi niwsans i gymdogion, breswylwyr eraill, staff neu ymwelwyr.
f) bod llety amgen addas wedi cael ei gynnig i chi ac rydych angen llety dros dro mwyach.
g) Nid ydych chi wedi aros yn yr Hostel am gyfnod rhesymol o amser heb roi gwybod i'r Rheolwr, a gall y Rheolwr gymryd barn resymol eich bod wedi gadael.

## 3) CAMAU I DDIWEDDU'R CYTUNDEB TRWYDDED

**OS YDYCH WEDI YMDDWYN MEWN FFORDD AFRESYMOL BYDD Y CYNGOR GWYNEDD YN GWEITHREDU FEL A GANLYN :**

a) Gellir cyflwyno rhybudd llafar
b) Gall hyn gael ei ddilyn gan rybudd ysgrifenedig
c) Os bydd rhagor o ddigwyddiadau gallwch dderbyn ail rybudd ysgrifenedig. Efallai y byddwch yn cael cyfle pellach.

d) Os nad yw'r sefyllfa yn gwella, byddwch yn cael Rhybudd i adael.
e) Os ydych yn gwrthod gadael ar ddiwedd y cyfnod rhybudd bydd camau cyfreithiol pellach yn cael eu cymryd.
f) Mewn achos difrifol o dorri amodau, fel ymddygiad treisgar neu ymosodol, byddwch yn derbyn llythyr ymadael yn syth. Bydd y llythyr hwn yn rhoi rhesymau pam yr ydych yn cael eich troi allan ac yn rhoi gwybod i chi am y weithdrefn ar gyfer apelio.

## 4) <u>HAWL I APELIO</u>

Pe byddwch yn anghytuno ag unrhyw gamau a gymerwyd yn eich erbyn o dan adran 3a i 3e uchod, efallai y gallwch apelio i'r Rheolwr Hostel. Os ydych yn dal yn anfodlon, dylech gysylltu â'r Swyddog Digartrefedd yn y Swyddfa Ardal y Cyngor.

Os ydych yn cael Rhybudd troi allan o dan adran 3f, dylech gysylltu â'r Swyddog Gwasanaethau Digartrefedd (01286 679814) neu'r Rheolwr Cymorth Digartrefedd a Thai (01341 424383).

# HOSTEL NODDFA

**RHEOLAU AC AMODAU MEDDIANNAETH**
**(Atodwyd i'r Cytundeb Trwydded)**

Mae'r amodau hyn yn atodiad i'r cytundeb trwydded yr ydych wedi ei lofnodi. Wrth lofnodi'r cytundeb rydych yn rhwym wrth y rheolau a'r amodau.

Nod yr amodau hyn yw sicrhau bod yr Hostel yn cael ei reoli'n effeithiol, ac ar gyfer diogelwch a lles yr holl drigolion. Gall dorri unrhyw un o'r amodau hyn arwain at y drwydded yn cael ei therfynu a'r preswylydd yn colli'r hawl i feddiannu'r Hostel.

Dim ond y preswylydd, ac aelodau o'r teulu y cytunwyd arnynt, sydd wedi derbyn y drwydded hon fydd a hawl i fyw yn y llety hwn.

## 1. TALU'R FFIOEDD LLETY

1.1 Sicrhewch eich bod yn talu eich rhent bob wythnos yn ddi-ffael, gan gynnwys cadw i fyny a unrhyw hawliad am Fudd-dal Tai.

1.2 Rydych yn gyfrifol hefyd am dalu taliadau gwasanaeth yn wythnosol ar gyfer gwres, goleuadau.

## 2. KEYS

2.1 Sicrhau bod yr allweddi a roddir i chi ar ddechrau eich deiliadaeth ar gyfer eich defnydd chi yn unig.

2.2 Ni fydd unrhyw ddefnydd neu gopïo heb awdurdod o allweddi yn cael ei ganiatáu.

2.3 Byddwn yn codi tal am unrhyw allweddi fydd yn cael eu colli.

2.4 Cadwch eich ystafell dan glo bob amser. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am eiddo coll.

## 3. CLOI DRWS DROS NOS

3.1 Rhaid i drigolion ddychwelyd i'r Hostel erbyn 10pm yn y nos. Ar ôl 10pm, bydd y drysau yn cael eu cloi.

3.2 Os nad ydych yn gallu dychwelyd erbyn 10pm oherwydd rhesymau arbennig yna disgwylir i chi roi gwybod i'r staff hostel ymlaen llaw.

## 4 DEFNYDD O ADEILADAU

4.1 Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r safle ar gyfer dibenion preswyl yn unig. Golygu hyn na ellir cyflawni unrhyw weithgareddau busnes, naill ai cyfreithiol neu anghyfreithlon.

4.2 Rhaid i chi beidio o dan unrhyw amgylchiadau i osod eich ystafell.

4.3 Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r hostel fel eich unig a phrif gartref, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi beidio â byw mewn unrhyw le arall tra eich bod yn ddeiliad trwydded.

## 5. YMWELWYR.

5.1 Caniateir ymwelwyr gyda chytundeb ymlaen llaw gan y Rheolwr, rhwng yr amseroedd o 10:00 a 19:00

5.2 Ni chaniateir i ymwelwyr fynd i mewn i ystafelloedd preswylwyr a rhaid defnyddio'r lolfa yn unig.

5.3 Gofalwch bod ymwelwyr yn llofnodi'r llyfr ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd, a phan fyddant yn gadael am resymau diogelwch tân.

5.4 Gall caniatâd gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw bryd, os yw ymddygiad eich ymwelwyr, neu hyd yr arhosiad â chi, yn dod yn annerbyniol.

5.5 Rhaid i nifer o ymwelwyr neu westeion gaiff ei gwahodd i mewn i'r hostel fod yn rhesymol ac ni ddylai ymwelwyr ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu neu'n amharu ar breswylwyr eraill neu ymyrryd â dyletswyddau staff.

## 6. CYFFURIAU AC ALCOHOL

6.1 Dylech sicrhau nad oes unrhyw alcohol neu sylweddau anghyfreithlon yn cael eu dwyn i mewn i'r hostel neu yn cael ei defnyddio ar y safle.

6.2 Bydd gofyn i unrhyw berson fydd a sylweddau anghyfreithlon yn ei meddiant i adael a bydd yr Heddlu yn cael eu hysbysu ar unwaith.

## 7. YSMYGU

7.1 Ni chaniateir ysmygu yn yr adeilad ar unrhyw adeg.

## 8 NIWSANS

8.1 Dylech sicrhau nad ydych yn tarfu ar breswylwyr eraill sydd â sŵn uchel, ee chwarae cerddoriaeth, teledu.

8.2 Ni ddylai ymwelwyr neu ddeiliaid achosi unrhyw niwsans neu flinder i breswylwyr eraill, ymwelwyr neu staff neu cyflawni unrhyw fath o aflonyddu hiliol neu fel arall.

8.3 Bydd ymddygiad bygythiol neu dreisgar tuag at unrhyw un o'r trigolion / ymwelwyr neu staff neu ddifrod bwriadol i eiddo'r Cyngor yn golygu achos difrifol o dorri'r drwydded a gall arwain at hysbysiad i fynd allan o'r adeilad ar unwaith.

## 9. ANIFEILIAID ANWES

9.1 Ni chaniateir anifeiliaid yn yr hostel.

## 10. CADW TŶ

10.1 Disgwylir eich bod yn cadw eich ystafell mewn cyflwr glân a thaclus.

10.2 Gall eich ystafell gael ei archwilio ar unrhyw adeg gan staff yr Hostel neu gan Swyddog o'r Cyngor.

10.3 Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw wrthrychau miniog yn cael eu rhoi yn y biniau ee llafnau rasel. Os oes angen cael gwared ag eitem o'r fath cysylltwch â staff yr Hostel fel y gellir ei waredu'n ddiogel.

10.4 Disgwylir i holl drigolion wneud eu cyfran deg o lanhau a thacluso yn yr Hostel. Disgwylir i chi lanhau ar ôl eich hun yn y gegin a'r ystafell ymolchi.

## 11. CEGIN

10.1 Gofalwch eich bod yn ei gadael yn lân ac yn tacluso ar ôl bod yn coginio.

11.2 Dylech sicrhau bod yr holl offer yn cael eu diffodd ar ôl cael eu defnyddio.

11.3 Ni chaniateir sosbenni sglodion yn yr hostel.

11.4 Peidiwch â gadael i'ch plant chwarae yn y gegin tra eich bod yn coginio.

## 12. LOLFA

12.1 Bydd y lolfa yn cael ei gloi am 11pm. Ar ôl y cyfnod hwn, disgwylir y bydd yr holl breswylwyr yn eu hystafelloedd.

12.2 Dylech sicrhau bod y  teledu a’r tân trydan wedi cael eu troi i ffwrdd os mai chi yw'r olaf i adael yr ystafell.

12.3 Peidiwch a gadael eiddo personol yn y lolfa.

## **13. PLANT**

13.1 Mae plant yn gyfrifoldeb eu rhieni a rhaid eu goruchwylio ar bob adeg.

13.2 Ni ddylai unrhyw drigolion adael eu plant yng ngofal preswylydd arall.

13.3 Disgwylir i blant fod yn eu hystafelloedd ar adeg resymol. Ni ddylid caniatáu iddynt redeg o gwmpas yn y nos.

13.4 Dylid  cadw plant draw oddi wrth offer trydanol, ee popty a thân trydan am resymau diogelwch.

## **14. YMARFER TÂN**

14. Bydd gofyn i chi gymryd rhan mewn ymarferion dril tân a dilyn gweithdrefnau dril tân

## **15. IECHYD A DIOGELWCH**

15.1 Mae'n rhaid i chi roi gwybod am unrhyw faterion iechyd a diogelwch i staff yr hostel, megis damweiniau, ac offer peryglus.

15.2 Rhaid i chi beidio â defnyddio dulliau amgen o goginio neu wresogi yn yr eiddo neu ystafell, gan gynnwys stofiau llosgi olew, gwresogyddion convector, silindrau nwy a gwresogyddion paraffîn sydd yn berygl tân difrifol a gall fod yn berygl i chi a thrigolion eraill.

15.3 Rhaid i chi beidio â defnyddio canhwyllau neu losgwyr olew ar unrhyw adeg.

15.4 Rhaid i chi beidio â chadw unrhyw arfau neu offer miniog yn yr hostel.

15.5 Rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith os ydych yn credu y gallech fod yn dioddef o unrhyw salwch y gellid ei drosglwyddo i bobl eraill.

## **16. CYMUNEDOL**

15.6. Mae Hostel Noddfa wedi ei lleoli ym mhentref Deiniolen. Tra eich bod yn byw yn Hostel Noddfa mae disgwyl i chi barchu'r gymuned gyfagos. Rhaid i chi beidio ag achosi niwsans neu aflonyddwch i eiddo cyfagos neu bobl sy'n byw yn y cyffiniau. Mae hyn yn cynnwys achosi niwsans i amwynderau lleol megis siopau, tafarndai neu fannau agored. Os bydd y Cyngor yn derbyn unrhyw gwynion ynghylch  a'ch ymddygiad neu ymddygiad aelod o'ch teulu yn y gymuned, yna efallai y bydd gofyn i chi adael yr hostel.

Mae'r Cyngor yn cymryd y mater hwn o ddifrif ac ni fyddwn yn goddef ymddygiad gwrthgymdeithasol tu fewn neu'r tu allan i'r hostel.

# COPI CYNGOR GWYNEDD

## MAE'R CYTUNDEB TRWYDDED YMA RHWNG

**Cyngor Gwynedd**, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

A ........................................................... (y cyfeirir atynt bellach fel 'Y Trwyddedai')

AR GYFER meddiannu ................................................................................. (Y cyfeirir atynt bellach fel 'Y Safle')

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd o natur dros dro a bydd yn cynnwys ystafell wely a defnydd ar y cyd o gegin, ystafell fwyta, lolfa, ystafell ymolchi a chyfleusterau toiled. Mae Cefnogaeth Staff yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod y gwaith o redeg y lleoliad yn unol â'r amodau sydd ynghlwm.

Y tâl rhent dyddiol ar gyfer y defnydd a meddiannaeth yr eiddo yw £ ...............

Mae Ystafell .................................wedi ei ddynodi ar eich cyfer

Bydd eich lleoliad yn dechrau o ............................

Mae trwydded ond yn ganiatâd i feddiannu a gellir yn gyfreithiol ei derfynu gan Gyngor Gwynedd heb reswm. {Bydd Cyngor Gwynedd yn dod ar trefniant i ben oherwydd torri'r amodau ynghlwm}. Dylech fod yn ymwybodol nad oes sicrwydd mewn meddiant trwyddedig sydd am gyfnod dros dro yn unig.

**Rwy'n cadarnhau fy mod yn derbyn y drwydded hon ac yn cytuno i gadw at yr amodau deiliadaeth fel y nodir drosodd. Yr wyf yn ymwybodol y bydd methiant i gadw at yr amodau hyn yn arwain at ddileu y caniatâd i fyw yn yr Hostel.**

**Llofnodwyd ................................ Dyddiad ...................... Trwyddedai**

**Llofnodwyd ................................ Dyddiad ...................... i Gyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **14 Mai 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **YMATEB I ARGYMHELLION CRAFFU: PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**<br>**CYDLYNU, CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU CLUDIANT** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. W Gareth Roberts** |
| | |

**CYD-DESTUN**

1 Diolch am yr wybodaeth yr wyf wedi ei dderbyn mewn perthynas â'r drafodaeth a gynhaliwyd yn y cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau. Deallaf fod nifer o bwyntiau wedi eu codi gan y tri chyfwelai a bod gan aelodau'r Pwyllgor gwestiynau yn codi yn ymwneud a'r materion yma ac mae dyma'r wybodaeth a gyfeiriwyd i mi ar gyfer eu hystyried.

2 Gallaf gadarnhau fy mod wedi cael cyfle i gael trafodaeth ddechreuol gyda swyddogion yr Adran Rheoleiddio a fy mod wedi darparu ymateb dechreuol i Gadeirydd y Pwyllgor o fewn yr amserlen a osodwyd. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar yr ymateb gwreiddiol hwnnw gyda man ychwanegiadau o ran eglurder.

3 Roedd y neges a dderbyniais yn nodi y dylid cyfeirio rhai o'r sylwadau at aelodau eraill o'r Cabinet. Hoffwn gadarnhau bod hyn yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa. Lle mae hyn yn berthnasol, 'rwyf wedi cyfeirio hyn dan y pwyntiau unigol gan gyfyngu fy sylwadau i faterion o fewn maes fy nghyfrifoldebau.

**CYDLYNU, CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU CLUDIANT**

4 Nodaf eich bod fel Pwyllgor yn awyddus i ddiolch i'r Gwasanaeth am eu gwaith yn y maes yma. Hoffwn innau hefyd fynegi fy niolch i'r Gwasanaeth am yr holl waith caled a wnaed dros y ddwy flynedd diwethaf mewn perthynas ag ail-edrych ar y ddarpariaeth cludiant ar draws Gwynedd. Oherwydd gwendidau'r gorffennol, nid oes amheuaeth fod datgymalu'r trefniadau hanesyddol a'u hail adeiladu unwaith eto yn dasg sylweddol ac nad yw ymgymeryd a gwaith o'r fath yn debygol o blesio pawb bob tro.

5 Credaf fod y Gwasanaeth yn ymgymeryd a'r dyletswyddau yma yn drwyadl ac yn broffesiynol ac 'rwyf innau hefyd yn ddiolchgar iddynt am wneud hyn a'm galluogi fel Aelod Cabinet, i arwain ar y mater. Nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau eto, ond 'rwyf yn hyderus fod gan y Gwasanaeth afael da ar beth sydd angen ei gyflawni a bod y materion sydd yn flaenoriaeth yn cael sylw priodol ac amserol yn y rhaglen waith.

6 Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae blaenoriaeth yr Uned Cludiant Integredig wedi ei roi ar ail lunio'r Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus a Cludiant Ysgolion. Tra bod y gwaith yma yn parhau, yn ystod 2013/14 gyda sylw i'w roi i Ardal Arfon. Bwriedir rhoi ffocws ar gludiant cymunedol a'r ddarpariaeth mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol.

7 Erbyn hyn, mae bron pob swydd o fewn yr Uned Cludiant wedi ei llenwi neu bod y gwaith yn cael ei gyflawni drwy drefniant neilltuol ac mae hyn yn ein galluogi i neilltuo amser swyddogion penodol i hwyluso'r gwaith ar dasgau penodol sy'n flaenoriaeth yn y rhaglen waith.

**GWAITH GYDA'R 3YDD SECTOR**

8 Dros y blynyddoedd diwethaf mae rhyw gymaint o waith wedi ei wneud gyda'r 3ydd sector i geisio adanabod cyfleoedd o ran cydweithio a darparu gwasanaethau cludiant cymunedol cynaliadwy. Er nad yw'r gwaith yma wedi ei gwblhau mae rhaglen ddrafft yn ei le ar ei gyfer a bwriedir ail afael yn y rhaglen hon yn ystod 2013/14.

9 Tra bod cyfraniad pwysig yn cael ei wneud, ni all y sector Cludiant Cymunedol aros yn ei unfan nac yn ei ffurf draddodiadol. Mae yn fwriad defnyddio adnodau o'r Cynllun 3 Blynedd i weithio gyda'r sector i drawsnewid/ail-ddylunio gwasanaethau Cludiant Cymunedol ar draws y Sir. Ni ellir osgoi hyn, yn enwedig gyda trefniadau ariannu Cludiant Cymunedol bellach yn cael ei wneud ar lefel rhanbarthol. Tra yn rhoi ffocws ar wneud y ddarpariaeth yn gynaliadwy yng Ngwynedd, bydd rhaid gwneud hyn yng nghyd-destun cydweithio gyda awdurdodau eraill er sicrhau cysondeb ar draws Gogledd Cymru.

10 Mae llawer o waith casglu gwybodaeth i'w wneud yn y lle cyntaf ac efallai na fyddwn mewn sefyllfa i roi cynllun peilot arall o fewn un ardal o Wynedd yn ei le yn ystod y flwyddyn hon. Rhaid hefyd cofio bod gwasanaethau ar alw eisoes wedi eu cyflwyno yn ambell ran o Gwynedd. Credaf y dylai'r gwaith casglu gwybodaeth fod wedi ei gwblhau mewn da bryd i ystyried priodoldeb y cynlluniau pellach ar gyfer eu gwireddu o 2014/15. Mae'n debyg mai'r neges allweddol yma yw bod y gwaith y mae'r Pwyllgor Craffu yn dymuno ei weld yn y maes Cludiant Cymunedol eisoes ar y gweill ac yn debygol o fod yn codi momentwm dros y misoedd nesaf.

**MAPIO GWASANAETHAU CLUDIANT CYHOEDDUS AR DRAWS Y SIR**

11 Gallaf gadarnhau fod rhan gyntaf o'r gwaith yma eisoes wedi ei wneud yn ardaloedd Meirionnydd a Dwyfor ar gyfer y broses ail dendro. Unwaith y bydd y gwaith o ail dendro cludiant cyhoeddus ac addysg yn ardal Arfon wedi ei gwblhau, gall yr ail ran o adnabod ac asesu priodoldeb y ddarpariaeth gael ei gwblhau. Bryd hynny, bydd yn gyfle i adnabod y ddarpariaeth sydd ddim yn cael ei ddefnyddio ac adnabod cyfleon i ategu gwasanaethau mewn ardaloedd neu ar amseroedd eraill.

12 Unwaith y bydd y gwaelodlin yma wedi ei sefydlu, yna gellid rhoi ystyriaeth ofalus i sut y gellid addasu'r gwasanaethau ymhellach fel eu bod yn cyfarfod ac anghenion cludiant cyhoeddus cymunedau Gwynedd.

13 Dylid nodi bod y Cabinet yn awyddus gweld cludiant yn cael sylw yn y Cynllun Strategol arfaethedig a hynny oherwydd ei gyfraniad i gyflawni rhai o amcanion strategol y Cyngor megis; lleihau allaniadau carbon; gwella mynediad i waith; hybu cymunedau gwledig cynaliadwy. Ystyriaf hyn yn un o'r materion sydd rhaid i mi fel Aelod Cabinet barhau i roi blaenoriaeth iddo dros y ddwy flynedd nesaf.

14 Wrth gwrs, rhaid hefyd cadw mewn cof ein bod yn byw mewn cyfnod o gynni ariannol ac y gallai toriadau pellach o gyfeiriad Llywodraeth ganolog olygu y bydd angen gwneud toriadau yn hytrach nac ategu'r gwasanaeth. Mae newidiadau o ran darparu gwasanaethau trwy drefniant rhanbarthol a newidiadau o ran ariannu yn rhanbarthol hefyd yn debygol o gael cryn ddylanwad ar y maes yma yn y dyfodol. Ni allaf gadarnhau beth sy'n debygol o ddigwydd gyda'r materion yma ar hyn o bryd ond ystyriaf eu bod yn faterion y dylai pawb ohonom gadw mewn cof.

**TREFNIADAU CLUDIANT AMGEN**

15 Mae gwaith mewn perthynas ac ymarfer da mewn ardaloedd eraill o Gymru a Lloegr wledig yn cael ei ystyried pan yn asesu cyfleoedd posib i sefydlu gwasanaethau yng Ngwynedd. Ystyriaf fod y gwaith yma yn elfen barhaus o waith yr Uned Cludiant. Os oes gwersi i'w dysgu o ardaloedd eraill neu enghreifftiau da y gellid eu defnyddio, mae'r briff y mae'r Uned Cludiant Integredig wedi ei gael gennyf yn rhoi arweiniad clir y dylent ystyried y materion yma.

16 Rwy'n siŵr bod aelodau'r Pwyllgor eisoes yn gyfarwydd â chamau i gynnig darpariaeth amgen sydd eisoes wedi eu gweithredu yng Ngwynedd. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae rhai gwasanaethau cymharol wedi newid i fod yn wasanaethau ymatebol neu ar alw (Demand Response Transport - DRT). Mae hyn yn un dull o gynnal gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae poblogaeth isel a defnydd isel o gludiant cyhoeddus, tra ar yr un pryd yn cadw costau i'r pwrs cyhoeddus i lawr ac yn gymorth i sicrhau nad yw cerbydau yn teithio yn wag.

17 Un o'r darpariaethau amgen mwyaf amlwg yng Nghymru os nad yn ehangach yw gwasanaeth y Sherpa sy'n cael ei gynnal mewn partneriaeth gyda Cyngor Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Yn y trefniant yma mae incwm o feysydd parcio a phartneriaeth flaengar gyda'r darparwr yn galluogi cynnal gwasanaeth sy'n cynorthwyo rheolaeth effeithiol o draffig, parcio a diogelwch ffyrdd, yn hyrwyddo yr economi mewn pentrefi a chanolfannau gwasanaeth lleol, yn hwyluso symudiad ymwelwyr ac yn gymorth i ddarparu gwasanaethu cludiant y gall trigolion lleol yn ogystal ac ymwelwyr eu defnyddio.

18 Yng ngoleuni yr uchod, ystyriaf bod angen unrhyw gamau penodol pellach mewn perthynas â chomisiynu ymchwil. Wedi dweud hyn, os oes gan aelodau enghreifftiau i'w dwyn i'm sylw, yna byddwn yn ddigon bodlon eu derbyn a sicrhau bod yr Uned yn rhoi ystyriaeth iddynt fel rhan o'r gwaith datblygol.

**ARIANNU DARPARIAETH CLUDIANT CYMUNEDOL**

19 Yn anffodus, nid yw cais y Pwyllgor mewn perthynas ac ystyried ariannu'r darpariaethau cludiant cymunedol cyfredol yng Ngwynedd am dair blynedd er mwyn rhoi cyfle iddynt gynllunio ar gyfer y tymor hir gan fonitro'r sefyllfa yn flynyddol, yn un y gellid ei gytuno iddo.

20 O'r 1 Ebrill 2013, oherwydd penderfyniad y Gweinidog, mae'r adnoddau ar gyfer cludiant cymunedol yn cael ei ddosrannu gan y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol a hynny ar sail amodau penodol. Nid yw ymrwymo arian am 3 blynedd felly o fewn gallu na hawliau Cyngor Gwynedd. Mae'n fwriad gan y Consortia i gadw lefel y cyfraniad yn agos at y lefel bresennol yn y flwyddyn gyntaf sef 2013/14. Wedi hynny, fe fydd gwaith yn cael ei wneud i alluogi'r Consortia i dargedu yr arian yn fwy penodol ac i sicrhau fod yr arian ddim yn cael ei ystyried fel taliad sefydlog blynyddol ond yn hytrach fel arian sydd yn galluogi'r darparwyr unigol presennol i sefydlu i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir gan hefyd arallgyfeirio rhyw gymaint o arian i ehangu'r ddarpariaeth.

21 Yn naturiol, fe fyddaf yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod darpariaeth cludiant gymunedol yng Ngwynedd yn derbyn cefnogaeth haeddiannol gan y Consortia. Fodd bynnag, ceisio dylanwadu fyddwn ac ni ellir rhoi sicrwydd y bydd ein dadleuon yn cario'r dydd yn erbyn dadleuon o gyfeiriadau awdurdodau ac ardaloedd eraill, heb son am ddymuniadau posib y Llywodraeth fydd yn cael eu hamlygu drwy feini prawf unrhyw gynllun ariannu. Wedi dweud hyn, efallai y bydd y newid yma yn y trefniadau ariannu yn creu'r posibilrwydd i ariannu cynlluniau peilot newydd fel a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor Craffu.

**RHEWI GWARIANT AR AROS FANNU BYSIAU AC ARWYDDION**

22 Yr wyf yn nodi'r dymuniad y mae aelodau'r Pwyllgor Craffu yn ei fynegi. Fodd bynnag, nid yw yn bosib i anwybyddu yr elfennau yma pan yn ystyried darparu gwasanaethau cludiant. Mae arosfannau bysiau glan a hwylus yn cyfrannu tuag at lefelau defnydd gwasanaeth ac mae'r arwyddion a'r amserlenni yn yr arosfannau yn allweddol mewn perthynas â hybu nifer defnyddwyr. Mae peidio gwneud buddsoddiad yn cael effaith andwyol ar lefelau'r gwasanaeth ac felly mae angen sicrhau buddsoddiad priodol yn yr elfennau yma. Yn ychwanegol, mae ystyriaethau iechyd a diogelwch angen sylw ac felly bydd rhaid neilltuo cyllideb ar gyfer yr elfennau yma.

23 Dyliwn hefyd dynnu eich sylw fod yr arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer yr elfennau yma ar hyn o bryd yn gwbl annigonol i'w cynnal a'u gwella e.e. nid oes arian wedi ei glustnodi ar gyfer cynnal a glanhau'r cyfnewidfeydd bysus megis yr un ym Mangor, Caernarfon, Oakeley Arms ayb. Nid yw'r cynnig felly, yn fy marn i, yn un ymarferol i'w weithredu.

**INTEGREIDDIO TRAFNIDIAETH SIROL A RHANBARTHOL**

24 ‘Rwyf yn cytuno cant y cant fod angen cydlynu llwybrau trafnidiaeth ar draws y Sir a thu hwnt i ffiniau'r Sir. Mae hyn yn allweddol os am sefydlu gwasanaeth integredig sydd yn hwylus ar gyfer defnyddwyr. ‘Rwyf hefyd yn cefnogi yr egwyddor o gychwyn gwasanaethau yn gynt yn y bore a pharhau yn hwyrach yn y nos i ardaloedd gwledig.

25 Fodd bynnag, ‘rydym i gyd yn ymwybodol bod gallu'r Cyngor i ehangu'r ddarpariaeth yn y modd yma yn gwbl ddibynnol ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Y gwasanaethau yn fuan yn y bore a hwyr yn y nos yn aml iawn yw’r rhai sydd ddim yn cael eu defnyddio gan lawer o deithwyr ac felly rhain ydi’r gwasanaethau sydd ddim yn hyfyw i gwmnïau eu darparu yn fasnachol sydd yn anodd eu cyfiawnhau am gymhorthdal ariannol gan y Cyngor neu o ran hynny gan y Llywodraeth.

26 Trwy’r broses ail dendro bresennol, sydd eisoes wedi ei chwblhau ym Meirionnydd ac yn Nwyfor, bydd y gwaelodlin o wasanaethau Cludiant Cyhoeddus craidd wedi ei sefydlu. Unwaith y bydd y broses wedi ei chwblhau yn Arfon, a disgwylir i yn Medi 2014, hyn fod yn weithredol yna gellid ystyried os yw’r adnoddau gan y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau ychwanegol fyddai yn ehangu'r gwasanaeth ar gyfer cychwyn yn gynt yn y bore a pharhau yn hwyrach gyda’r nos i ardaloedd gwledig.

27 Ar fy nghais i, mae'r Uned Cludiant eisoes wedi edrych ar ddarpariaeth ychwanegol o’r math yma mewn un ardal, a daeth yn gwbl glir y byddai'r gost o sybsideiddio y gwasanaeth yn £58 am bob £1 o incwm fyddai yn cael ei dalu gan deithwyr ar y bysiau. Mae hyn yn dystiolaeth glir y byddai'r lefel defnydd ar y gwasanaethau yn yr ardal honno yn hynod isel, ac felly, rhaid ystyried yn ofalus os yw yn ddarpariaeth y dylai'r Cyngor fod yn ei ddarparu. Gallaf gadarnhau fy mod wedi gofyn i’r Gwasanaeth edrych eto ar yr achos yma gan geisio canfod os oes opsiynau eraill, rhatach y gellid eu hystyried.

28 Yr amser i edrych ar briodoldeb y rhwydwaith craidd yw pan fydd y broses ail dendro wedi ei chwblhau ar draws y Sir gyfan, ac ‘rwyf eisoes wedi cyfarwyddo'r Pennaeth Rheoleiddio ar Uned Cludiant i roi trefniadau a rhaglen yn ei lle ar gyfer cyflawni hyn. Bydd hynny yn rhoi cyfle i mi ystyried cyfres o ddewisiadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau ychwanegol neu leihau gwasanaeth lle nad oes defnydd ohonynt.

29 Mae’n gynamserol i mi wneud unrhyw addewidion neu sylwadau hyd nes y bydd y gwaith yma, ar sail y gwaelodlin llawn, wedi ei gwblhau a bydd unrhyw benderfyniad yn gorfod cael ei wneud yng nghyd-destun y cyd-destun ariannol sy’n wynebu’r Cyngor gan gynnwys dylanwad lefelau arian a ddosrennir gan y Llywodraeth.

**CLUDIANT ADDYSG**

30 ‘Rwyf yn nodi'r gyfres o faterion a godwyd gan y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â Cludiant Addysg. Fodd bynnag, mae nifer o’r materion yma yn rhai y dylid eu hystyried yn y lle cyntaf gyda'r Adran Addysg gan eu bod yn faterion ariannu a pholisi. Rhaid cadw mewn cof mae rôl yr Uned Cludiant Integredig yw caffael a rheoli gwasanaethau ar ran yr adrannau cleient sef yr Adran Addysg yn yr achos yma.

31 Byddai gan yr Uned Cludiant gyfrifoldebau penodol mewn perthynas â gwireddu rhai o’r materion yma os byddai yr Adran Addysg yn dymuno eu darparu ac yn addasu'r gofynion y disgwylir i’r Uned Cludiant eu gweithredu. Fodd bynnag, credaf nad yw yn briodol i mi ymateb ar y materion yma ac y dylai rhain gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf i’r Cyng. Siân Gwenllïan fel yr Aelod Cabinet priodol.

32 Yr un mater yr hoffwn wneud sylw arno mewn perthynas â’r maes yma yw'r materion yn ymwneud a **Diogelwch ac Ansawdd y Cerbydau.** Drwy'r broses ail-dendro mae'r contractau wedi eu tynhau yn sylweddol i geisio sicrhau bod materion diogelwch ac ansawdd yn cael y sylw priodol. Gan eu bod bellach yn faterion sydd yn y contractau mae yn bosib eu monitro hwy yn y effeithiol ac os bydd y gwaith hwnnw yn dangos nad yw cwmnïau yn cyfarfod ac amodau eu contractau yna bydd y Cyngor yn cymeryd y camau priodol gan gynnwys cyfeirio'r materion i VOSA neu'r Comisiynydd Trafnidiaeth, er sicrhau bod diogelwch ac ansawdd y cerbydau yn cael y sylw priodol.

33 I gloi, hyderaf fod yr adroddiad hwn yn cyfarch y pwyntiau mae aelodau'r Pwyllgor wedi eu codi. Os ydych yn dymuno cael mwy o wybodaeth neu eglurhad ar unrhyw agwedd o fy ymateb gellid gofyn cwestiwn yn y Pwyllgor neu gall aelod unigol gysylltu â mi neu’r Gwasanaeth drwy e bost. Mi geisiwn ymdrin ar mater mor fuan ag sydd yn ymarferol bosib.

**RHAGLEN WAITH YR UNED CLUDIANT**

34 Fel gwybodaeth ychwanegol, ac mewn ymgais i gynnig tystiolaeth bod llawer ar y gweill o ran trawsnewid ac ail ddylunio darpariaeth Cludiant yng Ngwynedd, bydd cyfeiriad yn cael ei wneud i raglen waith yr Uned fel rhan o’r cyflwyniad i’r Pwyllgor. Mae hon yn raglen sydd yn ymateb i’r hyn o welaf i, ac ‘rwyf yn gobeithio yr hyn a welwch chi, sydd yn bwysig, ac mae wedi ei datblygu gan Uwch Reolwr y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Phennaeth yr Adran Rheoleiddio. Mae sawl her sylweddol o’n blaenau yn enwedig ymdrin ag elfennau cyllidol a’r cyd-destun o reolaeth rhanbarthol o’r ddarpariaeth cludiant, ond ‘rwyf yn hyderus y bydd y rhaglen hon wedi ei chytuno yn yr wythnosau nesaf ac y bydd yn y sail i ddarparu gwasanaethau cludiant effeithiol ac effeithlon yn y Sir.

# ARGYMHELLION CRAFFU
# *SCRUTINY RECOMMENDATIONS*

| | |
|---|---|
| Pwnc/*Subject* | CLUDIANT<br>TRANSPORT |
| Oddiwrth/*From* | Cyng. ERIC JONES<br>Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau<br>*Chairman Communities Scrutiny Committee* |
| I/*To* | Cyng. GARETH ROBERTS<br>Aelod Cabinet Amgylchedd<br>*Environment Cabinet Member*<br><br>Cyng. Siân Gwenllian<br>Aelod Cabinet Addysg<br>*Education Cabinet Member* |
| Cyfeirnod Rhaglen Flynyddol/<br>*Annual Programme Reference* | 18 |
| Dyddiad/ *Date* | 17 Ebrill 2013<br>*17 April 2013* |

B <u>Addysg</u>

1 Ystyried yn fanwl ac ar fyrder y ddarpariaeth cludiant ôl 16 oed a gefnogir gan y Cyngor gan roi ystyriaeth i'r materion canlynol er mwyn dod i ddealltwriaeth glir gyda darparwyr addysg bellach ôl 16 cyn diwedd tymor yr haf eleni ar gyfer trefniadau o Fedi 2013 ymlaen.

a) **Cysoni lefel y gefnogaeth o fewn y Sir** i hwyluso mynediad i gyrsiau sy'n cael eu cynnig i fyfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau mewn Ysgol Uwchradd neu Goleg Addysg Bellach fesul ardal:

- Arfon
- Dwyfor
- Meirionnydd

Er mwyn ymateb i'r cais uchod a phwynt d a e isod rydym wedi cyflwyno cais am wybodaeth i Philip Roberts, Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr, Safle Menai, Bangor a John Elfyn Griffith, Gwasanaeth Dysgwyr, Safle Pwllheli yn ein cyfarfod blynyddol yn Safle Menai, Bangor 2 Mai,2013.
Bydd angen y wybodaeth ganlynol-
Niferoedd dyddiol y myfyrwyr sydd angen teithio rhwng 9:00 a 12:00, rhwng 13:00 a 18:00, ar ôl 20:00
Man cychwyn a gorffen pob taith

b) **Gwella cefnogaeth cymharol** er mwyn lleihau cost y Tocyn Teithio Blynyddol i fyfyrwyr yng Ngwynedd o'r £180 y pen presennol er mwyn dod yn agosach at y gefnogaeth a gynigir gan siroedd cyfagos:
- Ynys Môn – Tocyn Blynyddol - £60
- Conwy – Tocyn Blynyddol Am ddim
- Dinbych – Tocyn Blynyddol Am ddim

Penderfynwyd gan Fwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod 25 Ionawr, 2011 i fabwysiadu'r Polisi Cludiant ôl 16 oed yn weithredol 1 af Fedi, 2011 ymlaen a mabwysiadu'r ffi £60 y tymor.
Mae Ymgynhorwyr " Transforming Transport" gafodd eu comisynu i gwblhau adroddiad ar gludiant 6 Awdurdod Gogledd Cymru yn argymell y dylai'r 6 awdurdod ymgynghori ar godi £300 y flwyddyn ar gyfer cludiant ôl 16 neu beidio ei gynnig

c)Ymestyn **cyfnod talu** am docyn tymor i 6 wythnos

Mae pwynt 7.2 o'r polisi yn nodi "ar ddechrau tymor cyntaf dysgwyr ôl-16 bydd cyfnod o hyd at dair wythnos iddynt deithio heb docyn"

Ch) Caniatáu **dulliau gwahanol** o dalu am docyn tymor.

Mae'n bosib talu am docyn gyda siec, " postal order" , cerdyn debyd neu gerdyn credyd

d) **Ymestyn cyfnod** yr amseroedd a'r dyddiau y gellir defnyddio tocyn tymor.

Fel a uchod

dd) Lle bo galw uchel, rheolaidd a chyson am wasanaeth trafod gyda'r darparwyr i **redeg dau gerbyd** i ateb y galw

Byddai'r Uned Cludiant Integredig, Gwasanaeth Rheoleiddio yn trefnu dau gerbyd pe byddai cwynion am or-lenwi

.

e) Darpariaeth gyson ar gyfer elfennau galwedigaethol rhai Cyrsiau ar **amseroedd hwyrach gyda'r nos**

Fel a uchod

f) Rhoi sylw penodol i **ddiogelwch ac ansawdd** y cerbydau.

Yr Uned Cludiant Integredig fyddai'n sicrhau hyn

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **BWRDD Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **25 IONAWR 2011** |
| **TEITL** | **Polisi Cludiant a ffioedd ôl-16 oed Cyngor Gwynedd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno argymhellion Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi iddynt graffu adroddiad y Pennaeth Addysg ar y polisi newydd arfaethedig, ffioedd a thaliadau, gan gynnwys canlyniadau'r ymgynghoriadau ar y cynigion** |
| **ARGYMHELLIAD** | • **Mabwysiadau polisi Cludiant ôl-16 newydd, ffioedd a thaliadau o 1af o Fedi 2011 ymlaen**<br>• **Dileu'r Polisi Cludiant ôl-16 oed presennol (a fabwysiadwyd ar 20 Gorffennaf 2004) ar 31ain Awst 2011** |
| **AWDUR** | **Dewi R Jones, Pennaeth Addysg** |
| **UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Dewi E Lewis** |

**1. Cyd-destun penderfyniadau**

1.1 Wedi i'r Cyngor fabwysiadau Strategaeth Arbedion ar 10 Rhagfyr 2009 bu raid i'r Pennaeth Addysg :

- Adolygu'r Polisi Cludiant ôl-16 cyfredol
- Argymell y ffioedd a thaliadau angenrheidiol er mwyn gweithredu'r polisi newydd

1.2 Fel y nodwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 30 Tachwedd 2010, roedd y polisi cychwynnol, ffioedd a thaliadau yn destun ymgynghoriad manwl cyn i fersiynau diwygiedig cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu

1.3 Penderfyniad y Pwyllgor Craffu oedd :

*" Gofyn i Fwrdd y Cyngor ddileu'r polisi cludiant ôl-16 presennol a mabwysiadu'r polisi newydd ynghyd â'r ffioedd arfaethedig ar gyfer 2011/12 fel a ganlyn:*

*(i) bod y Polisi arfaethedig yn gosod canllawiau newydd ar gyfer yr hawl i ddysgwyr ddilyn cyrsiau mewn sefydliadau addysg penodol. Ar ôl cymharu â siroedd eraill - sy'n codi fel arfer rhwng £250 a £350 y flwyddyn, credir y byddai ffî o £100 y tymor yn addas fel y ffî safonol - yn benodol ar gyfer y siwrneiau hirach a dewisiadau ehangach fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.11 o'r adroddiad. Fel cymhariaeth, heb y ffi o £300 y flwyddyn ar gyfer teithiau all-ddalgylch, byddai dysgwyr yn prynu'r Tocyn Crwydro Coch ar gyfer gwasanaethau bysus cyhoeddus sef ar gost o £972 y flwyddyn ar sail 180 diwrnod ysgol / coleg mewn blwyddyn.*

*(ii) byddai'r ffi arfaethedig a delid I'r Cyngor, sef £5 yr wythnos / £60 y tymor, yn galluogi dysgwyr i deithio pellteroedd llai at ganolfan dysgu leol neu i ganolfannau fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.12 o'r adroddiad.*

*(iii)* *fe godir tâl am docyn newydd oherwydd colli, torri neu ddifrod arall i docyn. Argymhelli ffi safonol o £10.00.*

*(iv)* *ar gyfer tocynnau o dan y cynllun "seddi gweigion", argymhellir y ffioedd canlynol:*

- *ar gyfer y sawl sy'n byw o fewn 3 milltir i sefydliad addysgol lleol - £60.00 y tymor*
- *ar gyfer y sawl sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch - £100 y tymor*
- *ar gyfer y sawl sy'n mynd ymlaen am drydedd flwyddyn - £100 y tymor*

*[ yn amodol y bydd sedd ar gael, a chydag ad-daliad pe bai angen y sedd ar gyfer dysgwr gyda hawl o dan y cynllun craidd ].*

*(v)* *Y taliad priodol ar gyfer dysgwyr sydd heb docyn yn eu meddiant ar gyfer siwrnai ar gludiant trwy gytundeb fydd £2.00 y siwrnai ".*

**1.4** **<u>Felly argymhellir fod Bwrdd y Cyngor yn:</u>**

**1.4.1** **mabwysiadu'r Polisi newydd ( Atodiad 1 ) o 1af o Fedi 2011**

**1.4.2** **mabwysiadu'r ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2011/12,**

**( a )** **ffi safonol o £100 y tymor**
**(paragraff 5.2 yn yr Adroddiad, paragraff 6.2 yn y Polisi)**

**( b )** **ffi gostyngol o £60 y tymor**
**(paragraff 5.3 yn yr Adroddiad, paragraff 6.3 yn y Polisi)**

**( c )** **tâl o £10 am adnewyddu trwydded**
**(paragraff 5.4 yn yr Adroddiad, paragraff 7.6 yn y Polisi)**

**( ch )** **taliadau ar gyfer 'seddi gweigion'**
**(paragraff 5.5 yn yr Adroddiad, paragraff 10.3 a 10.4 yn y Polisi)**

- ***ar gyfer y sawl sy'n byw o fewn 3 milltir i sefydliad addysgol lleol - £60.00 y tymor***
- ***ar gyfer y sawl sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch - £100 y tymor***
- ***ar gyfer y sawl sy'n mynd ymlaen am drydedd flwyddyn - £100 y tymor***

***[ yn amodol y bydd sedd ar gael, a chydag ad-daliad pe bai angen y sedd ar gyfer dysgwr gyda hawl o dan y cynllun craidd ]***

**( d )** **tâl o £2 ar gyfer siwrnai sengl ar gerbyd o dan gytundeb ar gyfer deiliad trwydded sydd heb y drwydded yn ei feddiant**
**(paragraff 5.6 yn yr Adroddiad, paragraff 7.5 yn y Polisi)**

**1.4.3** **diddymu'r Polisi Cludiant ôl-16 oed presennol (a fabwysiadwyd ar 20 Gorffennaf 2004) o 31 Awst 2011**

**1.4.4 awdurdodi'r Pennaeth Addysg i gynnwys y manylion cyswllt priodol ym Mharagraff 7.8 a'r adran "Gwybodaeth Ychwanegol" o'r Polisi**

**1.4.5 sicrhau, cyn diwedd Tymor y Gwanwyn 2011, fod yr holl ddysgwyr - a'u rhieni, a'r sefydliadau addysgol a fydd yn rhan o'r polisi newydd a'r ffioedd a thaliadau wedi'u hysbysu o'r trefniadau newydd.**

## 2. Cefndir

2.1 Ar 10 Rhagfyr 2009 penderfynodd y Cyngor gynnwys cynllun "codi incwm ar gludiant ôl-16 drwy godi tal o £5 yr wythnos ar bawb sy'n byw ymhellach na 3 milltir o'r ysgol / coleg a gosod canllawiau newydd ar yr hawl i ddilyn cyrsiau mewn sefydliadau addysg benodol ayb" yn Grŵp A yn y Strategaeth Arbedion 2010 – 2013. Amcangyfrifwyd y bydd y taliadau yn codi tua £230,000 o incwm mewn blwyddyn gyllidol lawn pan weithredir y Polisi yn llawn. Yn ogystal cytunwyd ar arbediad o £100,000 trwy "osod canllawiau newydd ar yr hawl i ddilyn cyrsiau mewn sefydliadau addysg penodol, ayb".

2.2 Oherwydd y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn academaidd a blwyddyn gyllidol y Cyngor, ni fydd yr incwm llawn trwy godi tâl yn cael ei wireddu tan y flwyddyn gyllidol 2013/14. Fodd bynnag trwy weithredu canllawiau newydd eisoes bu'n bosib adnabod arbedion o £69,000. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa.

| | **2011/12 £** | **2012/13 £** | **2013/14 £** | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|---|
| A: Targed arbedion | 230,000 | 100,000 | 0 | **330,000** |
| B: Arbediad a ragwelir yn cael eu cyflawni | 124,000 | 140,000 (264k – 124k) | 39,000 (303k - 264k) | **303,000** |
| C: Gwarged / (Diffyg) | **(106,000)** | **40,000** | **39,000** | **(27,000)** |

Bydd yr Adran Addysg yn archwilio ddulliau ychwanegol i leihau'r bwlch o 10% rhwng yr amcangyfrifon cychwynnol o arbedion posib a disgwyliadau Strategaeth Arbedion y Cyngor.

2.3 Mae ystadegau a ddarparwyd gan y ddau goleg addysg bellach yn dangos cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n eu mynychu o Wynedd, a chynnydd o 104 yn y nifer sy'n teithio ar gludiant a ddarparwyd gan y Cyngor. Gan ddefnyddio'r un syniadaeth a ddefnyddiwyd yn hydref 2009 pan gynigwyd y syniad o godi incwm, gellir rhagweld cynnydd refeniw o £17,000 ( gyda phawb yn talu'r ffi gostyngol ).

2.4 Roedd archwiliad o ymchwil ar effeithiau posibl cyflwyno ffi ar gyfer defnyddio cludiant a oedd gynt yn rhad ac am ddim i sefydliadau addysgol ôl-16 oed yn argymell fod yr effaith yn fach iawn, ond gall fod ychydig yn uwch mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys dewis a lleoliad cyrsiau i'w hastudio. ( Gwnaethpwyd yr ymchwil ar ran Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree, Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd [ yn Lloegr ], Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin a gan Sian Thornthwaite - ymgynghorydd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. )

2.5 Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr ( Cymru ) 2008 yn nodi yn achos cludo dysgwyr ôl-16 oed bod disgwyl i awdurdodau addysg leol drefnu teithiau addas bob dydd rhwng y cartref a'u mannau addysg a hyfforddiant. Ond nid oes unrhyw ddyletswydd arnynt i

ddarparu cludiant i ysgol neu goleg i ddysgwyr sydd dros yr oedran ysgol gorfodol (16 oed ). Pe byddai'r Cyngor yn darparu cludiant dros yr oedran ysgol gorfodol mae'n rhaid trin dysgwyr sy'n mynychu ysgol uwchradd yn yr un modd â dysgwyr sy'n mynychu coleg.

2.6 Ers ei sefydlu yn 1996 mae Cyngor Gwynedd wedi darparu cludiant yn rhad ac am ddim i ddysgwyr dros 16 oed sy'n byw dros dair milltir i ffwrdd o ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach. Erbyn hyn mae cyllideb cludiant ôl-16 oed y Cyngor dros £1,250,000 y flwyddyn .

2.7 Mae angen adolygu'r Polisi presennol [ a fabwysiadwyd ar 20fed o Orffennaf 2004 ] am y rhesymau canlynol:-

- newidiadau yn y patrwm darparu cyrsiau ar gyfer dysgwyr sydd dros 16 oed
- argaeledd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer dysgwyr ar aelwydydd llai cefnog
- pwysau ariannol enfawr ar gyllideb y Cyngor,

a chyflwyno polisi newydd a thaliadau penodol am y cludiant. Rhagwelir y bydd y taliadau yn adennill 20% o sybsydi'r Cyngor ar gludiant ôl-16 oed.

2.8 Bwriad y Cyngor yw darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 oed sy'n byw tair milltir neu fwy o ysgol neu goleg cymwys. Codir tâl am y cludiant hwn.

2.9 Bydd y Polisi newydd yn dod i rym ar 1af o Fedi 2011 ac yn effeithio ar bob dysgwr sy'n cychwyn ar gwrs cymwys o'r dyddiad yma. Ni fydd y polisi yn effeithio ar ddysgwyr sydd wedi cychwyn cwrs cyn 1af o Fedi, 2011.

2.10 Cyhoeddodd Y Gweinidog, Leighton Andrews ar 15 Gorffennaf 2010 y bydd newidiadau o fis Medi 2011 yn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (sydd ar gyfer cludiant, llyfrau ac offer) ar gyfer dysgwyr newydd (nid dysgwyr 2009/10). O ganlyniad i ymchwil yng Nghymru a'r D.U. nodir nad yw'r grantiau o £10 a £20 yr wythnos - neu'r bonwsys, yn cael llawer o effaith ar benderfyniadau pobl ifanc i barhau mewn addysg ôl-16 oed. Felly, o Fedi 2011 ymlaen, bydd y trothwy ar gyfer derbyn £30 o lwfans yr wythnos yn cyfateb i incwm teuluol o £20,817 neu is ar gyfer teuluoedd a hawlia fudd-dâl plentyn ar gyfer un dysgwr, ac yn cyfateb i incwm teuluol o £23,077 neu is ar gyfer teuluoedd a hawlia fudd-dâl ar gyfer dau neu fwy o ddysgwyr.

2.11 Mae'n rhaid pwysleisio y bydd y Polisi yn gosod y dysgwyr yn yr un sefyllfa â phobl ifanc eraill o'r un oed sydd wedi gadael ysgol sydd er mwyn ymuno â'r gweithlu a gorfod teithio i'w man gwaith - yn aml ar gludiant cyhoeddus.

**3. Materion craidd y Polisi newydd**

**( a ) Y Rhwydwaith o gludiant ôl-16 oed**

3.1 Sylfaen y polisi newydd yw "rhwydwaith" o wasanaethau cludiant - boed fws gwasanaeth, bws coleg / ysgol, trên, bws bach neu dacsi, a fydd yn galluogi dysgwyr i gyrraedd safleoedd addysgol ôl-16 oed perthnasol.

3.2 Erbyn mis Medi 2011 bydd pob ysgol uwchradd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 a 13 yn medru cynnig Cwricwlwm Lleol llawn a fydd yn cwrdd â'r gofynion addysgu. Mewn rhai achosion bydd y ddarpariaeth sydd ar gael yn cael ei gynnig mewn mannau

addysgol eraill. Yn ogystal â chludiant i'r ysgol benodol ar ddechrau a therfyn pob dydd, bydd cludiant hefyd ar gael i / o'r cartref ar y Rhwydwaith i / o'r mannau addysgol cysylltiedig ar ddechrau a therfyn y diwrnod ysgol. Bydd yr un sefyllfa yn bodoli gyda'r dewis o gyrsiau sydd ar gael ar safleoedd Coleg Menai a Choleg Llandrillo Cymru ( Meirion - Dwyfor ).

3.3 Felly pan fydd dysgwyr yng Ngwynedd ym Mlwyddyn 11 yn archwilio'r dewisiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf bydd gwybodaeth ynglŷn â chyfleoedd teithio ( amserau a chostau ) i'r canolfan(nau) dalgylch ar gael, yn ogystal â manylion am y cyrsiau a fydd ar gael ym mhob ysgol a choleg trwy Wynedd. Felly gall dysgwyr unigol bwyso a mesur argaeledd cyrsiau ac argaeledd cludiant.

**( b ) Cludiant oherwydd anabledd**

3.4 Mae'r polisi newydd arfaethedig yn adolygu'r ffordd arferol o ddarparu ar gyfer dysgwyr sydd ag anabledd - anabledd dysgu a / neu gorfforol. Ar ôl unrhyw gyfnod pellach mewn coleg neu ysgol bydd y dysgwr unigol yn chwilio am swydd neu fynediad i addysg uwch. Yn hwyr neu'n hwyrach ni fydd gwasanaeth cludiant arbennig - e.e. tacsi, ar gael o'r cartref i'r ysgol / coleg, neu, wedyn, fan gwaith. Felly mae gweithrdu'r Polisi yn gofyn am farn gan arbenigwr ynglŷn ag :

- anawsterau sy'n rhwystro unigolyn
- asesiad o allu'r unigolyn i deithio o dan rhai amgylchiadau.

3.5 Mae'r Polisi'n ceisio datblygu cynhwysiant yn ogystal ag annibyniaeth pob dysgwyr. Bydd annog eu datblygiad addysgol a chymdeithasol er budd mawr i'r holl ddysgwyr, gan gynnwys gweithio tuag at deithio'n annibynnol. Bydd dysgwyr yn derbyn anogaeth i gyflawni hyn cyn gynted â phosibl a hynny, wrth reswm, mewn ymgynghoriad â'r rhieni / gwarchodwyr.

3.6 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau fod modd i ddysgwyr gydag anabledd defnyddio'r cerbydau sy'n darparu'r Rhwydwaith craidd. Er mwyn ei gwneud yn haws iddynt, bydd y Cyngor yn ystyried defnydd o gerbydau gyda mynediad hawdd, addasiadau i'r mannau codi / gollwng y dysgwyr, darparu cynorthwyydd, cynllun cyfeillio, cymorth pontio, ayyb. Y nôd yw magu hyder ac annibyniaeth wrth deithio a fydd yn gymorth ychwanegol i'r dysgwr unigol ar ôl gorffen cyfnod addysgol.

3.7 Wrth wneud penderfyniad ystyrir y canlynol gan y Cyngor cyn dyrannu cludiant arbennig i ddysgwr:

- Natur anghenion arbennig y dysgwr
- A yw'r daith arferol yn hygyrch i'r dysgwr ai peidio
- A oes gan y dysgwr broblemau meddygol penodol, boed yn y tymor byr neu hirdymor
- A oes gan y dysgwr anawsterau symudedd.

3.8 O dan rai amgylchiadau ni fydd defnydd o'r Rhwydwaith Cludiant - neu gerbyd arferol, yn bosibl. Bydd yn rhaid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig gan arbenigwr, e.e. Ymgynghorydd Pediatrydd, o'r anawsterau personol sy'n atal dysgwyr rhag defnyddio cludiant arferol ac asesiad o allu'r dysgwyr i deithio o dan rai amgylchiadau, gyda'r ffurflen gais. Bydd y Cyngor yn ystyried y dull gorau o ddarparu cludiant i'r dysgwr unigol, sef ar y Rhwydwaith craidd neu - o dan rai amgylchiadau, drefniant arbennig.

3.9 Adolygir anghenion dysgwyr gydag anghenion cludiant oherwydd rhesymau meddygol yn flynyddol.

**( c ) Dalgylchoedd cludiant a ffioedd**

3.10 Bydd dau bris ar gyfer teithio ar y Rhwydwaith - yr un llawn a'r un gostyngol.

3.11 Trwy dalu'r pris llawn bydd y dysgwyr yn medru teithio i unrhyw fan ar y Rhwydwaith o'u cartrefi yng Ngwynedd i unrhyw sefydliad sydd wedi ei enwi ar ddiwedd y Polisi.

3.12 Am y pris gostyngol bydd dysgwr yn medru defnyddio'r Rhwydwaith er mwyn:

- teithio i'r ysgol uwchradd leol ar gyfer cyfeiriad cartref y dysgwr ( gan gynnwys teithiau ar ddechrau a diwedd y diwrnod i sefydliadau sy'n darparu cyrsiau ar ran yr un ysgol uwchradd leol )
- teithio i safleoedd Coleg Llandrillo Cymru ( Meirion-Dwyfor ) yn Nolgellau a Phwllheli o gyfeiriadau yn Nwyfor a Meirionnydd, teithio i safleoedd Coleg Menai yng Nghaernarfon, Bangor a Llangefni o gyfeiriadau yn Arfon, neu deithio i safle Glynllifon, Coleg Llandrillo Cymru ( Meirion-Dwyfor ), o rywle yng Ngwynedd
- teithio i unrhyw ysgol arbennig neu gwrs addas i'r sawl ag anabledd dysgu mewn coleg addysg bellach.

3.13 Yn amodol ar fodolaeth sedd wag mewn cerbyd gall dysgwyr mewn categorïau eraill o ddysgwyr dalu'r un ffi am sedd wag mewn cerbyd.

**4. Y Polisi Newydd**

4.1 Gellir darllen y polisi newydd arfaethedig yn Atodiad 1.

4.2 Mae'r polisi arfaethedig hwn yn ymdrin â'r materion craidd canlynol:

- pwy sy'n gymwys ( para. 2.1 yn y Polisi newydd – gweler Atodiad 1)
- cyrsiau dilys ( 2.2 )
- oedran dysgwyr ( 2.3 )
- cyfnod estynedig ar gyfer y sawl gydag anghenion addysgol ychwanegol ( 2.4 )
- pellteroedd teithio ( 3.1 a 3.2 )
- mannau addysgol perthnasol ( 4.1 )
- manylion y "rhwydwaith" ( 5.1 – 5.5 )
- teithio am bris llawn ( 6.2 )
- teithio am bris gostyngol ( 6.3 )
- derbyn y Côd Ymddygiad ( 7.1 )
- cyfnod talu ( 7.2 )
- teithiau dechrau'r tymor cyntaf ( 7.3 )
- manylion y tocyn teithio ( 7.4 )
- oblygiadau peidio â chario tocyn ( 7.5 )
- talu am docyn newydd ( 7.6 )
- oblygiadau benthyg tocyn ( 7.7 )

- cael hyd i ffurflen gais ( 7.8 )
- newid cwrs ( 7.9 )
- adegau teithio ( 8.1, 8.2, 8.3 )
- dulliau cludo ( 9.1, 9.2 )
- disgwyliadau o’r cerbydau a’u gyrrwyr ( 9.3 )
- cydymffurfiaeth â’r Côd Ymddygiad ( 11.1, 11.2)
- oblygiadau torri’r Côd Ymddygiad ( 11.3 )
- cludiant oherwydd rhesymau anabledd ( 12.1 - 12.6 )
- argaeledd cefnogaeth ariannol i ddysgwyr ( 13.1 – 13.4 )
- newidiadau i’r Polisi ( 14.1 )
- newidiadau i’r ffioedd ( 14.2 )
- dull cwyno ( 15.1 )

4.3 Yn ogystal mae’r polisi newydd arfaethedig yn cynnig cyfleoedd ychwanegol o dan rai amgylchiadau:

- egwyddor y cynllun “seddi gweigion” ( 10.1 )
- cynllun “seddi gweigion” ar gyfer y sawl sy’n byw o fewn 3 milltir i sefydliad addysgol lleol ( para. 10.2, 10.3 )
- cynllun “seddi gweigion” ar gyfer y sawl sy’n mynychu addysg uwch ( 4.3, 10.2, 10.4 )
- cynllun “seddi gweigion” ar gyfer y sawl sy’n mynd ymlaen am drydedd flwyddyn ( 10.2, 10.4 )
- ffîoedd seddi gweigion ( 10.3, 10.4 )
- ceisiadau am docyn sedd wag ( 10.5 )
- amodau’r cynllun “seddi gweigion” ( 10.6 )

4.4 Bydd y bylchau ym mharagraff 7.8 ac yn y Wybodaeth Ychwanegol yn cael eu llenwi ar ôl cytuno ar y manylion.

**5. Ffioedd**

5.1 Mae’r penderfyniad y Cyngor yn cyfeirio at ffi o £5 yr wythnos. Roedd y ffi hon wedi’i chynnig ar gyfer teithio i’r ysgol uwchradd neu goleg lleol - sef y pris gostyngol y cyfeirir ato uchod.

5.2 Mae’r Polisi arfaethedig yn gosod canllawiau newydd ar gyfer yr hawl i ddysgwyr ddilyn cyrsiau mewn sefydliadau addysg penodol. Ar ôl cymharu â siroedd eraill - sy’n codi fel arfer rhwng £250 a £350 y flwyddyn, credwn y byddai ffi o £100 y tymor yn addas fel y ffi safonol - yn benodol ar gyfer y siwrneiau hirach a dewisiadau ehangach fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.11 uchod. Fel cymhariaeth, heb y ffi o £300 y flwyddyn ar gyfer teithiau all-ddalgylch, byddai dysgwyr yn prynu'r Tocyn Crwydro Coch ar gyfer gwasanaethau bysus cyhoeddus sef ar gost o £972 y flwyddyn ar sail 180 diwrnod ysgol / coleg mewn blwyddyn.

5.3 Byddai’r ffi arfaethedig a dderbyniwyd gan y Cyngor, sef £5 yr wythnos / £60 y tymor, yn galluogi dysgwyr i deithio pellteroedd llai at ganolfan dysgu leol neu i ganolfannau fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.12 uchod.

5.4 Yn ogystal mae'r Polisi yn cyfeirio at godir tâl am docyn newydd oherwydd colli, torri neu ddifrod arall i docyn. Argymhellir ffi safonol o £10.00.

5.5 Ar gyfer tocynnau o dan y cynllun "seddi gweigion", argymhellir y ffioedd canlynol:

- ar gyfer y sawl sy'n byw o fewn 3 milltir i sefydliad addysgol lleol - £60.00 y tymor
- ar gyfer y sawl sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch - £100 y tymor
- ar gyfer y sawl sy'n mynd ymlaen am drydedd flwyddyn - £100 y tymor

[ yn amodol y bydd sedd ar gael, a chydag ad-daliad pe bai angen y sedd ar gyfer dysgwr gyda hawl o dan y cynllun craidd ].

5.6 Y taliad priodol ar gyfer dysgwyr sydd heb docyn sydd wedi'i talu amdano ac sydd ddim yn eu meddiant ar gludiant trwy gytundeb fydd £2.00 y siwrnai.

## 6. Ymgynghori ar y Polisi drafft

6.1 Er mwyn derbyn adborth ar gynnwys y Polisi ( ond nid yr egwyddor o godi ffi, gan fod hyn wedi'i benderfynu gan y Cyngor eisoes ) cynhaliwyd cyfarfodydd gyda:

- darparwyr addysg a hyfforddiant
- dysgwyr.

6.2 Er mwyn darganfod barn darparwyr addysg a hyfforddiant cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Fforwm Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Gwynedd, Coleg Menai, Coleg Llandrillo Cymru (Meirion- Dwyfor) a Phenaethiaid Ysgolion Pendalar a Hafod. Y prif faterion a godwyd oedd:

- yr angen i sicrhau fod pob dysgwyr yn ymwybodol o'r ffynonellau ariannol posib
- diffiniadau o gyrsiau perthnasol a'u hyd
- cynnwys myfyrwyr ar holl gyrsiau addysg uwch yng Ngholeg Menai yn ogystal â Phrifysgol Bangor
- trefniadau dros dro dechrau'r tymor cyntaf
- ychwanegu at y nifer o safleoedd
- ymestyn yr amser cyn bod yn rhaid dechrau teithio adra
- dysgwyr o Wynedd sydd mewn gofal y tu allan i Wynedd
- sefyllfa unigolion sydd ddim ond mynychu sefydliad pellach neu 3 milltir o'u cartref ar un diwrnod mewn wythnos.

6.3 O safbwynt y dysgwyr, gofynnwyd am gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr dysgwyr yng Ngholeg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda dysgwyr Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau a Phwllheli a Choleg Menai ( dysgwyr ar safleoedd Llangefni a Bangor ). Y prif faterion a godwyd oedd:

**a)** materion a oedd yn gysylltiedig gyda phenderfyniad y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2009 i godi tâl o £60 y tymor:

- sylwadau cryf ynglŷn â diffyg unrhyw ymgynghoriad cyn mis Rhagfyr 2009 gyda phobl ifanc a'u rhieni dros y syniad o godi tâl
- y peryg mawr bydd nifer o ddysgwyr yn peidio â pharhau gydag addysg ôl - 16 ac effaith tymor hir ar sgiliau yn y gweithlu lleol

- newidiadau yn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg o fis Medi 2010 ymlaen a fydd yn dileu'r symiau wythnosol o £10 a £20, a'r bonws tymhorol, gyda mân newid yn y trothwy incwm aelwyd ( ac yn dibynnu ar un, neu ddau a rhagor, o blant ar yr aelwyd )
- peryglon diogelwch y ffyrdd, problemau parcio ger safleoedd y colegau, materion gwyrdd a fydd yn codi gyda mwy o ddysgwyr prynu cerbyd
- effaith ar aelwydydd tlawd - e.e. dibyniaeth ar y L C A fel "incwm", plant niferus, costau offer ar gyfer rhai cyrsiau
- yn amlach na pheidio nid yw taliad cyntaf unrhyw L C A yn cael ei dderbyn tan o leiaf 4 wythnos, efallai 6 wythnos neu fwy.
- gall cost offer mewn blwyddyn ar gwrs galwedigaethol gyrraedd £485.

Cyflwynwyd deiseb gan dysgwyr Coleg Menai yn erbyn y penderfyniad i godi tâl o £180 y flwyddyn.

**b)** Materion yn y Polisi ymgynghorol:

- Anfodlonrwydd gyda safon y gwasanaeth cludiant presennol mae'r Cyngor yn ei ddarparu ar hyn o bryd ( a thalu amdano ), e.e. rhedeg yn hwyr, cysylltiadau anghyfleus, cyflwr bwsiau [ dysgwyr wedi cwyno "i'r Cyngor" eisoes ]
- Cerbydau sy'n anaddas ar gyfer teithiau hir
- Angen sicrwydd na fydd dysgwyr gydag anghenion cludiant ychwanegol yn methu teithio [ond yn cytuno gyda'r egwyddor i annog annibyniaeth]
- Pellter rhwng rhai mannau gollwng / codi a'r Rhwydwaith

6.4 O safbwynt dysgwyr gydag anabledd, cynhaliwyd cyfarfod gydag Uned Cydraddoldeb ac Iaith y Cyngor, Grŵp Craidd Cydraddoldeb a Grŵp Clebran. Y prif faterion godwyd oedd:

- newidiadau i'r ffont a defnyddiwyd yn y drafft
- cyngor ynglŷn â manteision dyluniad cerbydau rhai cwmnïau a oedd yn rhagori dros gerbydau cwmni arall o safbwynt y sawl ag anabledd corfforol
- dyddiad ar gyfer talu am y tocyn ar gyfer Tymor y Gwanwyn
- cydnabod fod rhai yn methu darllen y Côd Ymarfer, ond yn medru deall y cynnwys

6.5 Cyflwynwyd manylion llawn yr ymgynghoriadau hyn i'r Pwyllgor Craffu.

6.6 Trwy ganiatâd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu gwahoddwyd Llywydd Urdd Myfyrwyr Coleg Llandrillo - dysgwr ar Safle Dolgellau Coleg Meirion - Dwyfor, i'r cyfarfod i annerch yr aelodau'n gryno. Yn anffodus bu iddi hi, a dysgwyr eraill oedd am wrando o'r Oriel Gyhoeddus, fethu'r bws o Ddolgellau a methu â chyrraedd y cyfarfod.

## 7. Prosesu ceisiadau am docynnau

7.1 Er mwyn sicrhau cysondeb wrth werthu'r tocynnau bydd yn rhaid eu gweinyddu drwy un ganolfan.

7.2 Ar hyn o bryd cynhelir trafodaethau rhwng yr Adran Addysg ( sef yr adran cleient ) a Chanolfan Gyswllt y Cyngor ym Mhenrhyndeudraeth, gan gynnwys syniad gan aelod o'r Pwyllgor Craffu, sef trafod dewis talu yn llai aml na'n dymhorol.

**8. Codi ymwybyddiaeth o'r Polisi newydd**

8.1 Ar ôl i'r Cyngor fabwysiadu'r Polisi newydd a'r ffioedd ar gyfer 2011/12 bydd yn rhaid codi ymwybyddiaeth o'r trefniadau newydd trwy:

- eu gosod ar Wefan y Cyngor
- ofyn i ysgolion a cholegau eu cynnwys yn eu prosbectai neu ddarparu gwybodaeth briodol ar gyfer y dysgwyr
- gymryd camau pendant i gyrraedd at grwpiau fel dysgwyr gydag anabledd a lleiafrifoedd ethnig
- ddefnyddio rhwydweithiau gwybodaeth fel Gwynedd Ni a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth ( CAB )

# ATODIAD 1

**CYNGOR GWYNEDD**

**ADRAN ADDYSG**

## POLISI CLUDIANT ÔL 16 OED

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr ( Cymru ) 2008 yn nodi bod disgwyl i Awdurdod Addysg Lleol drefnu teithiau addas bob dydd rhwng cartrefi dysgwyr a'r mannau lle maent yn derbyn addysg a hyfforddiant. Ond nid oes unrhyw ddyletswydd ar Gyngor Gwynedd i ddarparu cludiant i ysgol neu goleg i ddysgwyr [ sef disgyblion neu fyfyrwyr ] sydd dros yr oedran ysgol gorfodol, sef 16 oed. Os ydy'r Cyngor yn darparu cludiant dros yr oedran ysgol gorfodol mae'n rhaid trin dysgwyr sy'n mynychu ysgol uwchradd yn yr un modd â dysgwyr sy'n mynychu coleg.

1.2 Ers ei sefydlu yn 1996 mae Cyngor Gwynedd wedi darparu cludiant yn rhad ac am ddim i ddysgwyr dros 16 oed sy'n byw dros dair milltir i ffwrdd o ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach. Erbyn hyn mae cyllideb cludiant ôl-16 oed y Cyngor dros £1,250,000 y flwyddyn .

1.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu adolygu'r polisi presennol am y rhesymau canlynol:-

- newidiadau yn y patrwm darparu cyrsiau ar gyfer dysgwyr sydd dros 16 oed
- argaeledd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer dysgwyr ar aelwydydd llai cefnog
- pwysau ariannol enfawr ar gyllideb y Cyngor

a chyflwyno polisi newydd a thaliadau penodol am y cludiant. Rhagwelir y bydd y taliadau yn adennill 20% o sybsydi'r Cyngor ar gludiant ôl-16 oed.

1.4 Bwriad y Cyngor yw darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 oed sy'n byw tair milltir neu fwy o ysgol neu goleg cymwys. Codir tâl am y cludiant hwn.

1.5 Bydd y Polisi newydd yn dod i rym ar 1af o Fedi 2011 ac yn effeithio ar bob dysgwr sy'n cychwyn ar gwrs cymwys o'r dyddiad yma. Ni fydd y polisi yn effeithio ar ddysgwyr sydd wedi cychwyn cwrs cyn 1af o Fedi, 2011.

### 2. Pwy sy'n gymwys ?

2.1 Mae'r Polisi hwn ar gyfer dysgwyr sy'n byw yn Sir Gwynedd.

2.2 Bydd rhaid i'r dysgwr ddilyn cwrs / cyrsiau sydd yn y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru ( DAQW ). [ Gwelir www.daqw.org.uk am fanylion. ]

2.3 Bydd yn rhaid, gyda mân eithriadau isod, i ddysgwyr fod o dan 19 oed ar 31ain o Awst ym mlwyddyn dechrau'r cwrs er mwyn manteisio ar y Polisi hwn. Bydd dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer cludiant ac sy'n cyrraedd 19 yn ystod ail flwyddyn eu cwrs yn parhau i dderbyn cludiant tan ddiwedd y flwyddyn academaidd y maent yn cyrraedd 19 oed ynddi. Ni fydd y

Cyngor yn darparu cludiant i ddysgwyr sydd dros 19 ar 31ain o Awst ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac eithrio o dan y mân eithriadau isod.

2.4 Bydd dysgwyr gydag anghenion addysgol ychwanegol yn medru manteisio ar gynllun cludo ôl 16 oed y Cyngor drwy dalu'r ffi berthnasol am gyfnod hyd at 4 blynedd o ddechrau eu tymor cyntaf, neu hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd ar ôl eu pen-blwydd yn 21 oed.

## 3. Pellteroedd

3.1 Ni fydd y Cyngor yn darparu cludiant ar gyfer dysgwyr sy'n byw llai na thair milltir o ysgol neu goleg cymwys.

3.2 Bydd y Cyngor yn defnyddio'r pellter a fesurwyd ganddynt o'r cartref i'r ysgol neu goleg cymwys ar Gyfundrefn Gwybodaeth Ddaearyddol ( G I S ) y Cyngor er mwyn darganfod y gwir bellteroedd.

## 4. Ysgolion a safleoedd coleg perthnasol

4.1 Mae'r Polisi yn berthnasol ar gyfer teithio i'r sefydliadau addysgol canlynol:

- ysgolion uwchradd a gynhelir gan Gyngor Gwynedd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13
- ysgolion arbennig a gynhelir gan Gyngor Gwynedd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13
- safleoedd Dolgellau, Pwllheli a Glynllifon, Coleg Llandrillo Cymru (Meirion-Dwyfor) ar gyfer dysgwyr sydd o dan 19 mlwydd oed
- safleoedd Bangor, Parc Menai, Llangefni a Chaernarfon, Coleg Menai ar gyfer dysgwyr sydd o dan 19 mlwydd oed.

4.2 Gellir gweld y cyrsiau sydd ar gael ym mhob un o'r sefydliadau hyn yn eu prosbectai, sydd ar gael oddi wrth y sefydliadau yn uniongyrchol. Bydd ffurflen gychwynnol gofyn am fanteisio ar y rhwydwaith cludiant ôl 16 ar gael ar yr adeg y bydd dysgwyr yn ystyried eu dewisiadau o'r Cwricwlwm Lleol.

4.3 Yn ogystal, o dan y cynllun "seddi gweigion", bydd myfyrwyr addysg uwch ym Mhrifysgol Bangor a Choleg Menai yn medru teithio ar lwybrau sy'n gwasanaethu safle Bangor, Coleg Menai, ar ddiwrnodau tymor Coleg Menai yn unig.

## 5. Y Rhwydwaith cludiant ôl-16 oed

5.1 Oherwydd natur ddaearyddol Gwynedd, nid yw bob amser yn bosibl trefnu llwybrau cludiant i fynd heibio cartrefi pob dysgwr sy'n awyddus i deithio. Bydd angen i ddysgwyr wneud eu ffordd eu hunain i'r man codi agosaf. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter hwn mor fyr â phosibl.

5.2 Bydd cludiant ar gael ar lwybrau penodol fydd yn arwain at y sefydliad(au) perthnasol. Hysbysir dysgwyr ar Wefan y Cyngor am yr union lwybrau a ragwelir fydd ar gael yn y mis Medi canlynol adeg cwblhau cais am le mewn ysgol neu goleg perthnasol.

5.3 Cyfrifoldeb dysgwyr unigol fydd cyrraedd y man codi agosaf ar un o’r llwybrau. Ni fydd y Cyngor yn darparu cludiant ychwanegol i gyrraedd unrhyw fan codi / gollwng ar un o’r llwybrau .

5.4 Cyfrifoldeb y darparwr cludiant yw asesu diogelwch unrhyw bwynt codi / gollwng. Bydd rhaid i ddysgwyr defnyddio'r man diogel agosaf i’w cartref.

5.5 Bydd y Cyngor yn adolygu’r rhwydwaith o lwybrau yn flynyddol er mwyn gwella effeithlonrwydd. Bydd unrhyw newidiadau yn hysbys cyn Gwyliau’r Pasg a dim ond yn cael eu cyflwyno ar ddechrau’r flwyddyn academaidd ddilynol.

## 6. <u>Ffioedd</u>

6.1 Bydd dau bris ar gyfer teithio ar y Rhwydwaith - yr un llawn a’r un gostyngol.

6.2 Trwy dalu'r pris llawn bydd y dysgwyr yn medru teithio i unrhyw fan ar y Rhwydwaith o’u cartrefi i unrhyw sefydliad sydd wedi ei enwi ar ddiwedd y Polisi.

6.3 Am y pris gostyngol bydd dysgwr yn medru defnyddio’r Rhwydwaith er mwyn:

- teithio i’r ysgol uwchradd leol ar gyfer cyfeiriad cartref y dysgwr ( gan gynnwys teithiau ar ddechrau a diwedd y diwrnod i sefydliadau sy’n darparu cyrsiau ar ran yr un ysgol uwchradd leol )
- teithio i safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau a Phwllheli o gyfeiriadau yn Nwyfor a Meirionnydd, teithio i safleoedd Coleg Menai yng Nghaernarfon, Bangor a Llangefni o gyfeiriadau yn Arfon, neu deithio i safle Glynllifon, Coleg Meirion-Dwyfor, o rywle yng Ngwynedd
- teithio i unrhyw ysgol arbennig neu gwrs addas i’r sawl ag anabledd dysgu mewn coleg addysg bellach yng Ngwynedd.

## 7. <u>Ceisio am y cludiant a thalu amdano</u>

7.1 Gwerthir tocyn i ddysgwyr sy’n gymwys ar gyfer cludiant ar yr amod eu bod nhw yn derbyn y Côd Ymddygiad Wrth Deithio a thalu’r ffi gyfredol.

7.2 Dim ond ar ôl derbyn tâl cyfredol bydd tocyn parhaol yn cael ei ddarparu yn y tymor cyntaf yn y coleg neu ysgol. Ar ddechrau tymor cyntaf dysgwyr ôl-16 bydd cyfnod o hyd at dair wythnos iddynt deithio heb docyn ar ddiwedd / dechrau’r daith yn amodol ar gario llythyr pwrpasol oddi wrth yr ysgol / coleg sy’n cadarnhau eu bod nhw wedi cofrestru yn yr ysgol / coleg.

7.3 Ar gyfer y tymhorau canlynol bydd rhaid talu am y tocyn cyn dechrau’r tymor, sef cyn 1af o Fedi ( Tymor yr Hydref ), 15fed o Ragfyr ( Tymor y Gwanwyn ), 1af o Ebrill ( Tymor yr Haf ).

7.4 Bydd llun y dysgwr sydd â hawl defnyddio'r tocyn ar bob tocyn gydag enw(au) yr ysgol / coleg a'r rhif(au) llwybrau teithio dilys.

7.5 Rhaid cario'r tocyn bob dydd a dylent fod ar gael i'w harchwilio gan y sawl sydd â hawl, e.e. gyrrwr bws, archwilydd bws, swyddog y Cyngor. Gellir gwrthod yr hawl teithio i ddysgwyr heb docyn yn eu meddiant ar y pryd, oni bai eu bod yn talu'r swm priodol ar gludiant cyhoeddus neu'r swm cyfredol a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer pob siwrnai ar gludiant trwy gytundeb.

7.6 Codir tâl am docyn newydd oherwydd colli, torri neu ddifrod arall i docyn. Bydd y ffi'n unol â'r gyfradd gyfredol.

7.7 Mae pob tocyn ar gyfer defnydd un unigolyn yn unig. Bydd caniatáu i unigolyn arall defnyddio tocyn y dysgwr y talwyd amdano neu ddefnydd o docyn a dalwyd gan ddysgwr arall yn groes i'r Polisi. Bydd camddefnydd o'r math hwn yn arwain at unigol(ion) yn colli'r fraint o ddefnyddio cludiant wedi'i sybsydeiddio gan y Cyngor a'u tocyn(nau) yn cael eu tynnu yn ôl.

7.8 Cewch hyd i ffurflen gais am docyn ar Wefan y Cyngor – www.gwynedd.gov.uk/...... neu ar gais i………….

7.9 Pe bai dysgwyr yn newid cwrs, neu os bydd lleoliad y cwrs yn newid, bydd rhaid cyflwyno cais o'r newydd. Bydd y ceisiadau hyn yn derbyn ystyriaeth frys.

## 8. <u>Adegau Teithio</u>

8.1 Bydd cludiant ar gael rhwng dydd Llun a dydd Gwener yn ystod tymhorau'r ysgol / coleg perthnasol yn unig.

8.2 Bydd rhaid i daith i goleg neu ysgol cael ei chwblhau cyn 12:00.

8.3 Ni ellir teithio adref o'r coleg neu ysgol cyn 13:00. Bydd rhaid i daith adref gychwyn cyn 18:00, oni bai fod gan y dysgwr lythyr swyddogol o'r ysgol / coleg sy'n cadarnhau fod amser y wers / darlith olaf ar ddiwrnod(au) penodol yn rhwystro teithio cyn 18:00.

## 9. <u>Math o ddarpariaeth cludiant</u>

9.1 Bydd y Cyngor yn darparu cludiant yn y dull mwyaf effeithiol a phriodol. Yn bennaf bydd y Cyngor yn trefnu defnydd o wasanaethau bws a thrên cyhoeddus.

9.2 Yn ogystal bydd y Cyngor yn darparu cludiant ar fysus, bysiau mini neu dacsis sydd o dan gytundeb gyda'r Cyngor.

9.3 Bydd y Cyngor yn disgwyl i weithredwyr sicrhau prydlondeb eu gwasanaethau a cherbydau glân o ansawdd gyda gyrrwyr sydd wedi eu hyfforddi'n bwrpasol ar gyfer natur y gwaith a'r teithwyr.

## 10. Cynllun “seddi gweigion”

10.1 O dan rai amgylchiadau ni fydd pob sedd mewn cerbyd sy’n darparu cludiant dysgwyr i ysgol neu goleg yn unol â’r Polisi yn llawn. O dan y fath amgylchiadau gall dysgwyr eraill ôl-16 oed dalu i ddefnyddio un o’r seddi gweigion.

10.2 Y categorïau o ddysgwyr sydd dan sylw yw:

- y sawl sy’n byw lai na thair milltir o’r sefydliad addysgol
- dysgwyr sydd wedi pasio 19 oed yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol
- myfyrwyr mewn addysg uwch ym Mhrifysgol Bangor neu Goleg Menai.

10.3 Gall dysgwyr sy’n byw y tu mewn i’r pellter o dair milltir fanteisio ar unrhyw seddi gweigion ar fws priodol sy’n hwylus trwy dalu’r tâl gostyngol.

10.4 Y tâl llawn fydd y gost ar gyfer dysgwyr sydd wedi pasio 19 oed yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol a myfyrwyr mewn addysg uwch ym Mhrifysgol Bangor neu Goleg Menai.

10.5 Dylid cyflwyno cais am docyn sedd wag yn yr un modd â thocyn arferol. Fodd bynnag ni fydd ceisiadau yn cael eu penderfynu tan ar ôl diwrnod cyntaf Tymor yr Hydref.

10.6 Mae’n bosib i nifer y dysgwyr sydd â hawl i gludiant godi yn ystod unrhyw dymor academaidd, ac felly na fydd mwyach sedd wag ar gael. O dan yr amgylchiadau yma ni fydd yn bosibl i ddysgwyr yn un o’r categorïau ychwanegol uchod barhau i deithio ar y cerbyd. Yn y fath amgylchiadau bydd y Cyngor yn ad-dalu ffi lawn y dysgwyr am y tymor. Cyfrifoldeb y dysgwr unigol wedyn fydd cyrraedd y coleg neu ysgol.

## 11. Y Côd Ymddygiad

11.1 Mae’r Cyngor yn cefnogi’r “Côd Ymddygiad Wrth Deithio” a baratowyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae’r Côd yn gosod disgwyliadau ar y dysgwr unigol, cyd-deithwyr a’r darparwyr cludiant. Gellir gweld y Côd ar Wefan y Cyngor.

11.2 Wrth i ddysgwyr gyflwyno cais am gludiant ôl-16 bydd yn rhaid iddynt, neu riant / gwarchodwr, ddatgan ar y ffurflen gais eu bod nhw wedi deall ac yn ymrwymo i gadw at y Côd Ymddygiad a’u bod yn ymwybodol o’r canlyniadau posib wrth dorri’r Côd.

11.3 Gall gweithrediad annerbyniol sy’n groes i’r Côd gan ddysgwr arwain at:

- adennill costau difrod pwrpasol gan ddysgwyr a / neu eu rhieni / gwarchodwr
- dileu’r trefniadau teithio a gytunwyd i ddysgwr am gyfnod penodol neu amhenodol. [ Cyfrifoldeb y dysgwyr fydd gwneud eu trefniadau cludiant eu hunain o dan yr amgylchiadau hyn.]
- camau disgyblu gan yr ysgol neu goleg perthnasol
- cyflwyno adroddiad am y digwyddiad i’r Heddlu.

## 12. Cludiant oherwydd rhesymau meddygol

12.1 Oherwydd anabledd corfforol a / neu anghenion arbennig eraill bydd rhai myfyrwyr yn wynebu problemau defnyddio Rhwydwaith cludiant ôl-16 y Cyngor.

12.2 Mae'r Polisi'n ceisio datblygu cynhwysiant yn ogystal ag annibyniaeth pob dysgwyr. Bydd annog eu datblygiad addysgol a chymdeithasol er budd mawr i'r holl ddysgwyr, gan gynnwys gweithio tuag at deithio'n annibynnol. Bydd dysgwyr yn derbyn anogaeth i gyflawni hyn cyn gynted â phosibl a hynny, wrth reswm, mewn ymgynghoriad â'r rhieni / gwarchodwyr.

12.3 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau fod modd i ddysgwyr gydag anawsterau teithio ddefnyddio'r cerbydau sy'n darparu'r Rhwydwaith craidd. Er mwyn ei gwneud yn haws iddynt, bydd y Cyngor yn ystyried defnydd o gerbydau gyda mynediad hawdd, addasiadau i'r mannau codi / gollwng y dysgwyr, darparu cynorthwyydd, datblygu cynllun cyfeillio, ymestyn cymorth pontio, ayyb. Y nôd yw magu hyder ac annibyniaeth wrth deithio a fydd yn gymorth ychwanegol ar ôl gorffen cyfnod addysgol.

12.4 Wrth wneud penderfyniad bydd y canlynol yn cael eu cymryd i ystyriaeth cyn dyrannu cludiant arbennig i ddysgwr:

- natur anghenion arbennig y dysgwr
- a yw'r daith arferol yn hygyrch i'r dysgwr ai peidio
- a oes gan y dysgwr broblemau meddygol penodol, boed yn y tymor byr neu hirdymor
- a oes gan y dysgwr anawsterau symudedd.

12.5 O dan rai amgylchiadau ni fydd defnydd o'r Rhwydwaith Cludiant - neu gerbyd arferol, yn bosibl. Bydd rhaid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig gan arbenigwr - e.e. Ymgynghorydd Pediatrydd, o'r anawsterau personol sy'n atal dysgwyr rhag defnyddio cludiant arferol ac asesiad o allu'r dysgwyr i deithio o dan rai amgylchiadau gyda'r ffurflen gais. Bydd y Cyngor yn ystyried y dull gorau o ddarparu cludiant i'r dysgwr unigol, sef ar y Rhwydwaith craidd neu drefniant arbennig o dan rai amgylchiadau prin.

12.6 Adolygir anghenion dysgwyr gydag anghenion cludiant oherwydd rhesymau meddygol yn flynyddol.

## 13. Cefnogaeth ariannol i ddysgwyr

13.1 Ers 2004/05 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnig Lwfans Cynhaliaeth Addysg i ddysgwyr dros 16 oed sy'n mynychu ysgol neu goleg lleol. Y brif elfen yw lwfans wythnosol sy'n gysylltiedig â mynychu'r sefydliad addysgol ac ymdrech astudio digonol.

13.2 Mae lefel y Lwfans yn dibynnu ar incwm y cartref. Telir y Lwfans er mwyn cynorthwyo gyda chostau teithio, llyfrau ac offer wrth ddilyn cwrs mewn coleg neu ysgol ar ôl 16 oed.

13.3 Disgwylir y bydd dysgwyr gydag anghenion cludiant arbennig yn hawlio'r Lwfans Symudoledd ar ôl dwy flynedd o addysg ôl 16 oed.

13.4 Gall dysgwyr ddarganfod mwy am y ffynonellau hyn ar y Wefan www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

## 14. Newidiadau i'r Polisi a Ffioedd

14.1 O dro i dro bydd y Cyngor yn newid ei Bolisi Cludiant ôl-16 oed. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu penderfynu cyn Gwyliau'r Pasg cyn dechrau'r flwyddyn academaidd ddilynol. Bydd y newidiadau yn dod i rym ar y 1af o Fedi canlynol.

14.2 Bydd y Cyngor yn adolygu eu ffioedd ar gyfer cludiant ôl-16 oed yn flynyddol. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu penderfynu cyn Gwyliau Pasg cyn dechrau'r flwyddyn academaidd ddilynol. Bydd y newidiadau yn dod i rym ar y 1af o Fedi canlynol.

## 15 Cwynion a sylwadau

15.1 Dylid cyflwyno unrhyw gwynion neu sylwadau ynglŷn â'r Polisi hwn yn unol â Threfn Cwynion a Sylwadau'r Cyngor.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

Mae'r canlynol ar gael ar wefan y Cyngor : www.gwynedd.gov.uk/

A. Amserlenni a mapiau o'r Rhwydwaith i'r sefydliadau perthnasol
B Y Côd Ymddygiad
C Ffurflen gais.
Ch Cwynion a Sylwadau

neu ar gais trwy ffonio ……………………..ar 01286 679qqq neu ysgrifennu at:-
…………………

Mae manylion a ffurflen gais y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu'r Cynulliad ar gael ar y Wefan www.cyllidmyfywyrcymru.co.uk neu o golegau ac ysgolion unigol.

Gellir cysylltu â'r ysgolion a cholegau perthnasol fel y ganlyn :

Ysgol y Berwyn : 01678 520259

Ysgol Dyffryn Nantlle : 01286 880345

Ysgol Syr Hugh Owen : 01286 673076

Ysgol Brynrefail : 01286 672381

Ysgol Tryfan : 01248 352633

Ysgol Friars : 01248 364905

Ysgol Dyffryn Ogwen : 01248 600291

Ysgol Pendalar : 01286 672141

Ysgol Hafod Lon : 01766 810626

Uned Tŷ Meirion, Ysgol y Gader : 01341 422578

Coleg Llandrillo Cymru ( Meirion-Dwyfor )
Dolgellau : 01341 422827
Pwllheli : 01758 701385
Glynllifon : 01286 830261

Coleg Menai
Bangor : 01248 370125
Llangefni : 01248 370125
Parc Menai : 01248 370125
Caernarfon : 01248 370125

Clive James.

5 Ionawr 2011

**Barn yr Aelod(au) Lleol**

Dim yn fater lleo l/ Not a local matter

---

B. Barn y Swyddogion Statudol

**1. Y Prif Weithredwr**

Yr hyn sydd dan sylw yma yw gweithredu ar benderfyniad sydd eisoes wedi ei wneud gan y Cyngor llawn i ganfod arbediad yn y maes hwn. Yn amlwg, mae'r gwaith manwl o ddiwygio'r polisi a'r ffioedd yn mynd a ni yn agos iawn at y swm a amcangyfrifwyd a nodaf ymrwymiad yr Adran Addysg i ganfod y gweddill.

Mae'n dda hefyd gweld bod asesiad wedi ei wneud o effaith posib y trefniadau newydd ac mai canlyniad yr asesiad hynny yw mai bach iawn fyddai'r effaith.

2. **Swyddog Monitro:-**

Mae'r Polisi drafft yma wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid perthnasol gan gynnwys grwpiau myfyrwyr a defnyddwyr a gofynion arbennig ac adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghori yna. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**3. Prif Swyddog Cyllid**

Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sy’n ymddangos yn yr adroddiad yn amcangyfrifon ar sail rhagdybiaethau eithaf teg, ond gall sawl ffactor ddylanwadu ar wir lefel yr incwm gan ddisgyblion / myfyrwyr (i fyny neu i lawr). Felly, bydd angen i’r Adran Addysg fonitro’r cynllun yn gyson ac yn fanwl yn ystod y blynyddoedd cychwynnol, gan ymateb yn briodol i unrhyw symudiad. Fel mae rhan 2.2 o’r adroddiad yn nodi, byddai raid i’r Adran Addysg ymdopi gydag unrhyw ddiffyg o dan y cynllun arfaethedig o’i gymharu gyda’r targedau arbedion gwreiddiol. Efallai bydd modd i’r awdur ddiweddaru rhai o’r ffigyrau yng nghyfarfod y Bwrdd, gan gynnwys adnabod y gost weinyddol o brosesu ceisiadau am docynnau drwy un ganolfan (yn unol â’r bwriad cyfeirir ato yn rhan 7 o’r adroddiad).

---

C. Papurau Cefndir

Datganiad ysgrifenedig gan Llywodraeth Cynulliad Cymru : newidiadau i gynllun lwfans cynhaliaeth addysg Cymru, 15 Gorffennaf 2010.

14-19 Curriculum Offer : Transport – Related Issues and Solutions. Dept for Children, Schools and Families

House of Commons Transport Committee : School Transport, 2008-09

Socio-economic disadvantages and access to higher education. Rowntree Foundation ( 2000 )

Managing Special Transport Needs. W L G A ( 2010 )

CH. Goblygiadau Polisi

Dileu'r polisi presennol a chyflwyno polisi newydd.

Gweithredu Strategaeth Arbedion y Cyngor, 10 Rhagfyr 2009

Clive James
21 Rhagfyr 2010

Blaenraglen Craffu Mehefin 2012 ymlaen – Fersiwn 3.00 (18.03.13)

**Noder – mae hon yn raglen fyw sy'n cael ei diweddaru'n gyson**

A Pwyllgor Craffu Corfforaethol

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 1 | Strategaeth Gymunedol | 14.06.12 | 19.07.12 |
| 2 | Strategaeth Arbedion | 14.06.12 | 19.07.12 |
| 3 | Meddylfryd Systemau (Ymchwiliad Craffu) | 14.06.12 | 31.01.13 |
| 4 | Cynllun Gwella | 06.09.12 | 02.10.12 |
| 5 | Cydbwysedd Gwledig a Threfol | 06.09.12<br>02.10.12 | 13.12.12<br>07.03.13 |
| 6 | Partneriaethau a Chydweithio<br>Asesu cynnydd | 19.12.12 | |
| 7 | Caffael Cynaladwy | 19.12.12 | 31.01.13<br>07.03.13 |
| 8 | Cynllun Strategol y Cyngor | | |
| 9 | Y Cyngor a'r Cyhoedd<br>Trefniadau Ymgysylltu | | |
| 10 | Gweithlu<br>Cadw morál y gweithwyr yn uchel mewn cyfnod anodd | | |
| 11 | Cydweithio gydag Ynys Môn | | |
| 12 | Polisi ôl-troed Carbon<br>Asesu cyrhaeddiad | | |
| 13 | Cynllunio Argyfwng<br>Asesu cynnydd ar Adroddiad SAC | | |

18.03.13

B Pwyllgor Craffu Cymunedau

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 14 | Cyflenwad a Fforddiadwyedd Tai | 18.07.12 | 04.09.12 |
| 15 | Ymchwiliad Craffu Tai | 18.09.12 | 05.02.13 |
| 16 | Ffordd Osgoi | 30.10.12 | 04.12.12 |
| 17 | Strategaeth Wastraff | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 18 | Cludiant<br>Cysondeb darpariaeth i Fyfyrwyr ar draws y Sir | 30.12.12 | 04.12.12<br>26.03.13 |
| 19 | Ynni Gwynt<br>Trefniadau ymgynghori | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 20 | Grymuso Cymuned<br>Cydweithio gyda phartneriaid yn lleol | | |
| 21 | Balchder Bangor<br>Ystyried cynnydd a gwersi i'w dysgu a'u rhannu ar draws y Sir | 04.09.12 | 26.03.13<br>10.12.13 |
| 22 | Defnydd o Eiddo gwag<br>Ystyried effaith polisïau'r Cyngor a'i bartneriaid | | |
| 23 | Ffioedd Parcio<br>Ystyried cysondeb ar draws y Sir | | |
| 24 | Defnydd o lwybrau beicio<br>Ystyried cynnydd ar safon a defnydd | | |
| 25 | Parc Glynllifon a Pharc Padarn<br>Ystyried cynnydd | | |
| 26 | Rhandiroedd<br>Herio cyflawniad ar y polisïau cyfredol a'r is-ddeddfau perthnasol | | |
| 27 | Parthau Cadwraeth Morol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | Cynllun Prentisiaeth<br>Ystyried cynnydd | | |
| 29 | Cyflwr Ffyrdd Cefn Gwlad<br>Ystyried problemau a datrysiadau posibl | | |
| 30 | Twristiaeth<br>Asesu effaith ar economi Gwynedd | | |
| 31 | Casgliadau Ysbwriel<br>Angen gwybodaeth | | |
| 32 | Rheoli Carafanio Dros Nos<br>Angen gwybodaeth | | |
| 53 | Tai Cymdeithasol | 30.12.12 | 05.02.13 |
| 54 | Cyfnod Meddiannu Carafanau Sefydlog | 19.02.13 | |
| 55 | Noddfa, Deiniolen | | |
| 56 | Cynllun Hurio Ceir | | |

C Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 33 | Gwasanaeth Ieuenctid<br>Cynnydd ar Raglen Wella'r Adolygiad | 25.06.12 | 31.07.12 |
| 34 | Strategaeth Addysg<br>Ystyried cynnydd hyd yn hyn<br>Sefydlu Gweithgor i gefnogi'r Aelod Cabinet<br>Cadarnhâd o'r goblygiadau | 25.06.12 | 31.07.12<br><br>13.09.12<br>15.11.12 |
| 35 | Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg | 25.06.12 | |
| 36 | Newid mewn Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru – Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | | 13.09.12 |
| 37 | Canolfannau Hamdden<br>Ystyried cynnydd ar yr Adolygiad Strategol | 11.10.12 | 15.11.12 |

18.03.13

| | | | |
|---|---|---|---|
| 38 | Cynllun Comisiynu Anabledd Corfforol<br>Ystyried Cynnydd y Cynllun | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 39 | Anabledd ac Awtistiaeth<br>Ystyried gwybodaeth | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 40 | Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn<br>Ystyried gwybodaeth 'Urddas mewn Gofal' | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 41 | Plant mewn Gofal | | |
| 42 | Tiroedd a drosglwyddwyd i Cartrefi Cymunedol Gwynedd | 22.11.12 | 10.01.13 |
| 43 | Darpariaeth Gwasanaethau'n Lleol | | |
| 44 | Llwybr i Gyflogaeth | | |
| 45 | Teleofal ac Offer Cefnogi Pobl | 22.11.12 | 10.01.13 |
| 46 | Ymyrraeth Ddwys – Cefnogi Teuluoedd | | |
| 47 | Pobl Ifanc<br>Cynnydd ar ddarparu cyfleoedd i rai sy'n ddiwaith i gael mynediad i brofiadau gwaith a gwaith | | |
| 48 | Cynllun Tlodi Plant | | |
| 49 | Cefnogaeth i Ofalwyr | | |
| 50 | Panel Rhiant Corfforaethol | | |
| 51 | Materion o Gynllun Gwella 2011-12<br>- Cynlluniau Gwella Iechyd (Tud 79)<br>- Gwelliannau Iaith (Tud 84-86)<br>- | | |
| 52 | Adroddiad Gwasanaethau Plant Sir Benfro | 17.01.13 | 21.02.13 |
| 57 | Y Gwystl – trefniadau ymgysylltu | | |

18.03.13